**Cod Trefniadaeth Ysgolion**

# Cod Statudol

Dogfen Cod Statudol rhif:
Dyddiad dyroddi:
Yn disodli dogfen cod statudol rhif: 011/2018

## Cod Trefniadaeth Ysgolion

### Cynulleidfa

Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau esgobaethol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a elwir yn Medr), ac Estyn.

### Trosolwg

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Medr, a hyrwyddwyr eraill) weithredu'n unol â hwy. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol roi sylw dyladwy iddynt ac yn nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y **dylai'r** rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion eu hystyried.

### Y Camau i'w Cymryd

Fel yr uchod

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SGOA@llyw.cymru

### Copïau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
https://www.llyw.cymru/cod-trefniadaeth-ysgolion

### Dogfennau cysylltiedig

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)
Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2021)
Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru (2011)
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English: https://www.gov.wales/school-organisation-code

# Cynnwys

**Crynodeb o’r newidiadau yn y trydydd argraffiad o’r Cod 7**
**Cefndir deddfwriaethol 10**
**Crynodeb 10**
**Adran 1. Datblygu ac ystyried cynigion 12**
Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol 12
Ffactorau i’w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo, neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 12
Ansawdd a safonau mewn addysg 12
Effaith ar y Gymraeg 13
Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion 13
Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill 17
Ffactorau cyffredinol eraill 18
Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion 19
Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig 20
Ffactorau penodol i’w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu gau dosbarthiadau meithrin 22
Ffactorau penodol i’w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu gau chweched dosbarth 22
Ffactorau penodol i’w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu’r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd 24
Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid cyfrwng iaith 24
Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol 24
Ffactorau ychwanegol i’w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo, neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol 25
Ffactorau i’w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion 26
**Adran 2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer 28**
Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer 28
Cynigion i newid categori ysgol 28
Newidiadau rheoleiddiedig 28
Pwy all wneud cynnig? 33
**Adran 3. Ymgynghori 35**
Egwyddorion 35
Sylw i fanylion 35
Gweithdrefnau 36
Dogfen ymgynghori 36
Ymgynghori â phlant a phobl ifanc 46
Adroddiadau ymgynghori 47
**Adran 4. Cyhoeddi cynigion statudol 49**
Dull cyhoeddi 49
Hyd y cyfnod gwrthwynebu 49
Cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig 50
**Adran 5. Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wneir gan Medr) 53**
Adroddiadau gwrthwynebu 53
Cymeradwyo gan Weinidogion Cymru (adran 50 o Ddeddf 2013) 53
Cymeradwyo gan yr awdurdod lleol (adran 51 o Ddeddf 2013) 55
Penderfynu gan gynigwyr (adran 53 o Ddeddf 2013) 56

Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol 57
Hysbysu am benderfyniad 58
Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol at Weinidogion Cymru 58
**Adran 6. Gweithredu cynigion 60**
Gweithredu – cyffredinol 60
**Adran 7. Cau ysgol â llai na 10 dysgwr cofrestredig 62**
**Adran 8. Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion 63**
**Adran 9. Cynigion gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i ailstrwythuro darpariaeth chweched dosbarth 66**
**Adran 10. Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer ADY 69**
**Adran 11. Hysbysiad corff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu wirfoddol 70**
**Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol 72**
**Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol 75**
**Atodiad C: Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a'r gymuned 80**
**Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol 83**
**Atodiad E: Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a fydd o gymorth wrth ddatblygu cynigion 85**
**Atodiad F: Rhestr o ysgolion gwledig 87**

## Crynodeb o’r newidiadau yn y trydydd argraffiad o’r Cod

Dyroddir y Cod Trefniadaeth Ysgolion (“y Cod”) o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”), sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi cod trefniadaeth ysgolion. Cânt ddiwygio’r Cod o bryd i’w gilydd gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn adran 39 o Ddeddf 2013.

Dyroddwyd yr ail argraffiad o’r Cod yn 2018. Mae’r Cod wedi cael ei adolygu ar ôl bod yn weithredol am 5 mlynedd ac yn dilyn ymgynghoriad llawn yn 2024/25, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud; mae’r mwyafrif ohonynt yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ers i’r ail argraffiad o’r Cod ddod i rym neu’n egluro gofynion sy’n ymwneud â deddfwriaeth a oedd eisoes ar waith bryd hynny. Nodir y newidiadau hyn isod.

**Safonau’r Gymraeg**

Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (“Rheoliadau 2015”) yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad cyrff penodol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol)[1]. Mae safonau yn cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisi sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae safonau llunio polisi 88 i 97 yn berthnasol i gynigion trefniadaeth ysgolion am fod yn **rhaid** i’r cyrff penodedig gydymffurfio â hwy wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys cynigion trefniadaeth ysgolion. Mewn perthynas â chynigion statudol, nid yw’r ddyletswydd wedi’i chyfyngu i gynigion mewn cysylltiad ag ysgolion Cymraeg; mae’n gymwys i gynigion sy’n ymwneud â phob ysgol a gynhelir, ni waeth beth fo’i chategori iaith.

O dan safonau 91 i 93, **rhaid** i ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a hefyd geisio safbwyntiau ynglŷn ag effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae’r rhain yn ofynion ar wahân, sy’n golygu bod yn rhaid cynnal asesiad effaith ac yna rhaid i gwestiynau gael eu gofyn ynglŷn â’r asesiad hwnnw.

Mae’r Cod wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r safonau llunio polisi hyn[2]. Wrth wneud hynny, mae’r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad o’r effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer pob cynnig statudol. **Rhaid** cynnwys hwn fel rhan o’r ddogfen ymgynghori neu ei gyhoeddi ochr yn ochr â hi.

---

**1** Mae Rheoliadau 2015 yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan Reoliadau 2015, i'r cyrff hynny. Mae'n ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safonau a bennir yn hysbysiad cydymffurfio'r corff a ddyroddir gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**2** Mae Medr wedi'i ychwanegu at Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a bydd rhaid iddo gydymffurfio â'r safonau a bennir yn ei hysbysiad cydymffurfio, ar ôl iddo gael ei ddyroddi gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**Cymraeg 2050**

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno. O ystyried pwysigrwydd y sector addysg yn ei gyfanrwydd o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion adlewyrchu ein huchelgeisiau yn Cymraeg 2050 a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc (y system ADY). Mae'n disodli'r system ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig plant mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (ADD) mewn addysg bellach.

Cychwynnwyd gweithredu Deddf 2018 o 1 Medi 2021. Cafodd y system ADY ei chyflwyno fesul cam dros gyfnod o 4 blynedd hyd at haf 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithredodd y system ADY ochr yn ochr â'r system AAA.

Mae pob cyfeiriad at Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth AAA (DAA) yn y Cod bellach wedi cael eu diwygio i ddarllen fel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn y drefn honno.

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), sy'n darparu ar gyfer cyflwyno a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr 3 i 16 oed yng Nghymru.

**Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

Sefydlodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a elwir yn "Medr"). Medr yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae ganddo swyddogaeth i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-orfodol 16-19 oed ac i gyllido'r cyfleusterau hynny.

Gwnaeth Deddf 2022 y diwygiadau a ganlyn i Ddeddf 2013, mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion. Cafodd pwerau Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 71 i 76 o Ddeddf 2013, i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth, eu dileu. Cafodd Pennod 3A newydd ei mewnosod i Ran 3 o Ddeddf 2013 er mwyn galluogi Medr i weithredu mewn ffordd fwy strategol, gan gynnig safbwynt ehangach ar ddarpariaeth chweched dosbarth ysgol a sicrhau y gall gefnogi dewis a chynnydd i ddysgwyr.

Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol yn cadw eu swyddogaethau cyfredol mewn perthynas â chyflwyno cynigion ynglŷn â threfniadaeth chweched dosbarth ysgolion. Nid yw swyddogaethau Medr yn arwain at golli unrhyw ddiogeliadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â chyhoeddi cynigion, ymgynghori arnynt a'r gallu i'w gwrthwynebu ac mae darpariaethau arwyddocaol eraill yn Neddf 2013 yn dal i fod ar waith.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Ddeddf 2013 gan Ddeddf 2022 mewn cysylltiad â threfniadaeth ysgolion.

## Cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Cod o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2013. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi Cod a gaiff osod gofynion a chynnwys canllawiau sy’n amlinellu nodau, amcanion a materion eraill mewn cysylltiad â threfniadaeth ysgolion. **Rhaid** i’r canlynol (a adwaenir gyda’i gilydd yn y Cod fel “cyrff perthnasol”), wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, weithredu’n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a geir yn y Cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a geir ynddo:

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir[3];
- y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr); a
- hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

Mae’r Cod yn gymwys i gynigion mewn cysylltiad ag ysgolion a gynhelir fel y’u diffinnir yn adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru, sy’n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu’n ysgol feithrin a gynhelir. Nid yw hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

## Crynodeb

Hwn yw’r trydydd argraffiad o’r Cod, a daw i rym ar 30 Mawrth 2026. Yn ddarostyngedig i’r paragraff canlynol, unwaith y daw i rym, bydd y Cod yn disodli’r ail argraffiad o’r Cod.

Os yw cynigydd wedi cychwyn ymgynghori cyn 30 Mawrth 2026, bydd y cynnig yn cael ei gyhoeddi a’i benderfynu yn unol â’r ail argraffiad o’r Cod. Ystyrir bod ymgynghoriad wedi cychwyn pan fydd dogfen ymgynghori, sy’n ofynnol o dan baragraff 3.4 o’r ail argraffiad o’r Cod, wedi cael ei chyhoeddi.

Mae’r Cod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Mae’n gosod gofynion y mae’n **rhaid** i gyrff perthnasol (neu bersonau sy’n arfer swyddogaeth at ddibenion cyflawni swyddogaethau yn adran 2 (newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer), gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) weithredu’n unol â hwy. Gall methiant gan gorff perthnasol i gydymffurfio â’r gofynion a nodir yn y Cod arwain at ddiddymu penderfyniadau gan y Llys Gweinyddol mewn achos adolygiad barnwrol. Gosodir gofynion gorfodol gan y Cod ei hun, gan Ddeddf 2013 neu unrhyw statud neu offeryn statudol arall. Pan fydd gofyniad gorfodol yn deillio o ddeddfwriaeth, rhoddir y ddarpariaeth statudol berthnasol naill ai yn y testun neu ar ffurf troednodyn. Ym mhob achos pan fydd gofyniad yn orfodol, mae’r Cod yn nodi bod yn **rhaid** i’r cyrff perthnasol gydymffurfio

[3] Y categorïau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru yw ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig, ac ysgolion arbennig cymunedol.

â'r ddarpariaeth benodol. Pan fydd arferion wedi eu gwahardd, nodir **na chaiff** y cyrff perthnasol ddefnyddio'r arfer hwn.

2. Mae'n cynnwys canllawiau statudol y mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol roi sylw iddynt ac mae'n nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y **dylai'r** rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am gymeradwyo cynigion neu benderfynu ar gynigion eu hystyried. Pan fydd y Cod yn rhoi canllawiau, **dylai** cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau hyn oni bai bod ganddynt resymau clir dros wyro oddi wrthynt. Os bydd cyrff perthnasol yn gwyro oddi wrth y canllawiau a roddir yn y Cod, **rhaid** iddynt roi rhesymau clir dros wneud hynny.

3. Mae'n rhoi disgrifiad o'r prif ofynion statudol a nodir yn Neddf 2013. Dylai cyrff perthnasol ddarllen y Cod ar y cyd â Deddf 2013.

Mae'r Cod yn adeiladu ar arfer dda sydd eisoes yn bodoli ymhlith awdurdodau lleol ac eraill ond nid rhoi canllawiau hollgynhwysfawr ar bob agwedd ar drefniadaeth ysgolion yw ei nod. Bydd angen i awdurdodau lleol, Medr ac eraill sicrhau, wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran trefniadaeth ysgolion, eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffyrdd sy'n rhesymol ac sy'n seiliedig ar fuddiannau dysgwyr.

Llunnir y Cod yn bennaf at ddefnydd y cyrff perthnasol ond efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

# Adran 1. Datblygu ac ystyried cynigion

## Egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol

1.1 Mae'r gwaith o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion effeithiol yn hollbwysig i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid addysg yng Nghymru a sicrhau gwell deilliannau addysgol.

1.2 **Dylai'r** cyrff perthnasol anelu at sicrhau bod cynigion yn cefnogi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr.

1.3 Ceir rhestr o ddeddfwriaeth, egwyddorion cyffredinol a pholisïau a fydd yn helpu cynigwyr i ddatblygu ac ystyried cynigion yn Atodiad E. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

## Ffactorau i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo, neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

1.4 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r ffactorau y **dylai'r** cyrff perthnasol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau yn paratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion a'u cymeradwyo/penderfynu arnynt. Mae paragraffau 1.5 i 1.23 yn gymwys yn achos pob cynnig.

## Ansawdd a safonau mewn addysg

1.5 **Dylai** cyrff perthnasol roi blaenoriaeth i fuddiannau dysgwyr uwchlaw pawb arall. Gan gyfeirio at dri maes arolygu 'Llawlyfr Beth rydym yn ei arolygu' Swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), **dylent** ystyried effaith debygol y cynigion ar:

- Addysgu a dysgu
- Llesiant, gofal, cymorth ac arweiniad
- Arwain a gwella

yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni/arno. **Dylai** cyrff perthnasol roi sylw penodol i effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag ADY.

1.6 **Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried gallu pennaeth/corff llywodraethu ysgolion sy'n destun y cynigion i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ym mhob rhan o'r continwwm addysg 3-16. **Dylai'r** ystyriaeth hon gynnwys ansawdd y gwaith ar ddylunio, mabwysiadu a chyflwyno'r cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn.[4]

[4] Mae deddfwriaeth sylfaenol yn nodi nodau statudol y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn Neddf 2021.

1.7 Mewn cysylltiad â chynigion sy'n effeithio ar ysgolion â darpariaeth chweched dosbarth, **dylid** rhoi ystyriaeth i rôl Medr i oruchwylio trefniadau rheoleiddio, ansawdd a chyllido darpariaeth ôl-16 (gan gynnwys darpariaeth ôl-16 i ddysgwyr ag ADY mewn lleoliadau prif ffrwd), a'i rôl mewn cysylltiad â llunio a chynllunio arlwy'r cwricwlwm i ddysgwyr 16-19 oed.

1.8 Pan fydd cynigion yn ymwneud â throsglwyddo dysgwyr i ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen, fel arfer, **dylai** fod tystiolaeth y byddai'r ddarpariaeth amgen yn sicrhau deilliannau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar y pryd i'r dysgwyr hynny (gan gynnwys dysgwyr ag ADY). Gellid yn rhesymol ddefnyddio cyngor gan Estyn fel tystiolaeth mewn perthynas ag ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen sy'n gwbl newydd. **Dylai** cynigwyr sicrhau bod cyn lleied o darfu ar ddysgwyr â phosibl.

1.9 Wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu, **dylai** cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn. **Dylai** cynigwyr gyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn, arolygiadau ardal (pan fônt ar gael) a thystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad, ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol ar effeithiolrwydd ysgol neu sefydliad addysg arall.

## Effaith ar y Gymraeg

1.10 **Rhaid** i'r achos a baratoir gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion ddangos effaith y cynigion ar y Gymraeg. **Rhaid** cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob cynnig. Mae Atodiad C yn cynnwys canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg y mae'n **rhaid** eu dilyn.

1.11 Ym mhob achos, **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried:

- y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd; a
- sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn achos yr olaf, nodi pam y bydd darpariaeth yn lleihau a **rhaid** iddynt ddangos tystiolaeth o gamau lliniaru.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

1.12 **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod digon o ysgolion os oes digon o ran nifer, cymeriad, a chyfarpar i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol.[5] Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drwyadl ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol priodol[6] ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardal sydd â

[5] Deddf Addysg 1996, adran 14.

[6] Corff crefyddol priodol yw, yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd a'r enwad

chymeriad crefyddol dynodedig. **Dylent** hefyd ymgysylltu â Medr mewn cysylltiad â darpariaeth ôl-16. Yng ngoleuni'r uchod, **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol.

1.13 Pan fydd cynnig i gau ysgol,[7] cau chweched dosbarth ysgol, lleihau capasiti ysgol, neu gyfyngu ar yr ystod oedran:

- a fydd gan ddarpariaeth ysgol neu ddarpariaeth ôl-16 amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, o leiaf, ar gyfer niferoedd dysgwyr presennol a'r niferoedd a ragwelir;

  Wrth ystyried cynigion **dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r Rheoliadau Adeiladu, Canllawiau Achos Busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Bwletinau Adeiladu perthnasol, safonau gofodol Llywodraeth Cymru, a chylchlythyr Llywodraeth Cymru *'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'* (neu ddogfen olynol). Hefyd, mae *Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999* yn nodi'r safonau ar gyfer safleoedd ysgolion, gan gynnwys isafswm arwynebedd meysydd chwarae gemau tîm y mae'n **rhaid** i ysgolion allu eu defnyddio. **Rhaid** i gynigion statudol sicrhau y caiff y safonau hyn eu bodloni.

- gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un:

  (a) categori iaith fel y'i nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu unrhyw ddogfen olynol; mae'r canllawiau anstatudol hyn yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ysgol. Bydd yn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn cefnogi ein nod cenedlaethol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn, fel y nodir yn Cymraeg 2050. Bydd rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r targedau addysg yn Cymraeg 2050 yn cael ei nodi yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol unigol.

  (b) cymeriad crefyddol dynodedig (os yw'n berthnasol).

  Ym mhob achos pan gynigir cau ysgol, lleihau ei chapasiti neu leihau'r ystod oedran, **rhaid** i ddysgwyr presennol yr ysgol sydd o oedran ysgol gorfodol allu parhau i dderbyn addysg yn eu cyfrwng iaith presennol. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau pontio penodol er mwyn cyflawni hyn.

---

crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

[7] Mae unrhyw gyfeiriad at 'gau ysgol' yn y ddogfen hon yn golygu terfynu ysgol a gynhelir, fel y nodir yn adrannau 40, 43, 44 ac 83(3) o Ddeddf 2013.

1.14 Ar gyfer pob cynnig i agor, cau neu adleoli ysgolion, **rhaid** i gynigwyr ystyried:

- gofynion statudol fel y'u nodir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("Mesur 2008") a chanllawiau statudol cysylltiedig;[8] ac

- y goblygiadau o ran cludiant a'u heffaith. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried y lleoliad a ddewisir a mesurau arfaethedig i annog teithio cynaliadwy, megis llwybrau teithio llesol a seilwaith perthnasol (er enghraifft cynyddu mannau storio i feiciau/sgwteri a lleihau nifer y lleoedd parcio ar gyfer ceir).

1.15 Mae'n bwysig ystyried y goblygiadau o ran cludiant i ddysgwyr, staff ac ymwelwyr â'r safle o'r cychwyn, yn ogystal â'r effaith ar gymunedau lleol. Fel y'i nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd, ein polisi yw cynyddu cymaint â phosibl gyfleoedd i deithio drwy gerdded, beicio neu ddulliau cynaliadwy eraill, ar gyfer manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd, gydag ymrwymiad i leoli gwasanaethau cyhoeddus newydd (gan gynnwys addysg) yn agos i'r mannau lle mae pobl yn byw, ac i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus presennol.

1.16 I ysgolion y bydd angen darpariaeth cludiant i'r ysgol arnynt, **dylid** rhoi ystyriaeth i sicrhau bod seilwaith diogel ac addas ar gael i'r cerbydau perthnasol. **Dylai'r** ystyriaeth roi ffocws ar ddiogelu capasiti addas at y dyfodol os bydd niferoedd dysgwyr yn cynyddu. **Rhaid** i gynigwyr gydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch statudol yn hyn o beth.[9]

1.17 **Dylai** cadw cerddwyr oddi wrth gerbydau fod yn un o'r egwyddorion allweddol wrth gynllunio safle ysgol newydd. Bydd safle wedi'i ddylunio'n dda sy'n gwahanu cerddwyr oddi wrth gerbydau yn lleihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau. Byddai cyflwyno llwybrau ar wahân i gerbydau a cherddwyr yn y pen draw yn ddymunol er mwyn osgoi gwrthdaro posibl a lle mae'r llwybrau yn croesi, groesfannau priodol wedi'u marcio'n addas fel y gŵyr pawb ble maent wedi'u lleoli.

1.18 Mae hygyrchedd o ran cyrbiau uwch, cyrbiau is ac elfennau botymog hefyd yn flaenoriaeth er mwyn ategu mynediad i bobl anabl a'r dyletswyddau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000.[10]

1.19 Yn achos cynigion i gau ysgolion/chweched dosbarth, **dylai** awdurdodau lleol ystyried:

- natur teithiau i ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen ac amseroedd teithio canlyniadol i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a nodir ym Mesur 2008, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr.

  **Rhaid** i drefniadau ar gyfer teithio i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy; a **rhaid** iddynt ymdrin ag

---

[8] Mesur 2008; mae dogfennau canllaw ar gael ar llyw.cymru
[9] Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 (legislation.gov.uk), rheoliad 17.

[10] Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000

effaith bosibl unrhyw anawsterau cludiant ar ymgysylltiad dysgwyr a'u presenoldeb yn yr ysgol.[11] **Dylid** asesu llwybrau cerdded neu feicio tebygol o ran diogelwch a hygyrchedd cyn cyflwyno unrhyw gynigion.[12]

1.20 Pan gynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran, mae angen i gynigwyr ystyried y canlynol:

- **rhaid** asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath mewn ardal a rhoi tystiolaeth o'r galw hwnnw. Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg, **dylai** cynigwyr ystyried sut y bydd y cynnig yn gwella'r gwaith o gynllunio a darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r disgwyliad yw bod yn **rhaid** i'r awdurdod lleol greu'r galw am y math hwn o ddarpariaeth er mwyn cyflawni neu ragori ar dargedau statudol fel y'u nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- a fydd cynigion yn gwella mynediad i ddysgwyr ag anabledd yn unol â gofynion adran 88 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010[13] ac Atodlen 10 iddi a dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru – Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau.[14]

- y goblygiadau o ran cludiant i ddysgwyr, staff ac ymwelwyr a'r angen i gynyddu cymaint â phosibl gyfleoedd i deithio drwy gerdded, beicio neu ddulliau cynaliadwy eraill, ar gyfer manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd, lle y bo'n briodol.

---

[11] Mesur 2008, adran 2 a'r Canllawiau Gweithredol
[12] Teithio gan ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014, Pennod 5.
[13] Deddf Cydraddoldeb 2010, adran 88 ac Atodlen 10.
[14] Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru - Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau, rhif 235/2018, dyddiedig Mawrth 2018.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

1.21 Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol. **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â'r adnoddau addysg:

- pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd sydd dros ben yn yr ardal;

  Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau yn niferoedd dysgwyr, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau wedi'u hymrwymo'n ofer.

  Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, **dylai** awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a **dylent** ystyried p'un ai i wneud cynigion ar gyfer eu dileu, os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) **ac** o leiaf 30 o leoedd gwag.

  Er y gofynnir i awdurdodau lleol reoli gormodedd o leoedd gwag, nid yw hyn yn golygu cau ysgolion o reidrwydd. Mae paragraff 1.26 o'r Cod yn cynnwys opsiynau eraill sydd ar gael iddynt hwy a'u hysgolion.

  Fel arfer, **ni ddylid** bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag, efallai y bydd cynigion i gynyddu nifer y lleoedd ar gyfer math penodol o ddarpariaeth, e.e., cyfrwng Cymraeg, yn briodol o hyd; yn enwedig os cynllunnir ar gyfer darparu lleoedd ysgol yn effeithiol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol yn unol â'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- a yw cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy a rheolaeth strategol well o'r ystad ysgolion.

1.22 **Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid:

- costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, o leiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;
- costau cludiant ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i gynigion.

  **Dylai** cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim o dan Fesur 2008 a'r canllawiau statudol cysylltiedig a **dylent** gael cyngor gan adran drafnidiaeth yr awdurdod lleol perthnasol ar yr effaith y gall y cynnig ei chael ar y costau cludiant cysylltiedig a'u fforddiadwyedd.

- costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael;

- costau refeniw cynigion, gan gynnwys costau staffio a chostau cynnal a chadw adeiladau ac a yw'r cyllid refeniw angenrheidiol ar gael;
- maint unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion).

  Mewn perthynas â chynigion pan fo angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i ategu gwaith ailfodelu sylweddol, gwaith adnewyddu neu brosiect adeiladu o'r newydd), **dylid** cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a'u cymharu â'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â chadw at y sefyllfa sydd ohoni.

- a fyddai'r ysgolion sy'n destun y cynigion yn wynebu diffygion cyllidebol heb y cynigion;
- a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol; ac
- a fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

  Yn gyffredinol, **dylai** awdurdodau lleol geisio ailgylchu asedau o unrhyw adeiladau a safleoedd ysgolion dros ben sy'n eiddo iddynt i wella eu hystad ysgolion yn gyffredinol yn hytrach na neilltuo'r enillion hynny i brosiectau y tu allan i'r portffolio addysg, er mai awdurdodau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn yn y pen draw.

## Ffactorau cyffredinol eraill

1.23 **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol:

- effaith cynigion ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig;
- unrhyw faterion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; ac
- a yw'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion yn ddarostyngedig i unrhyw fuddiannau ymddiriedolaeth neu elusen y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.

  **Rhaid** i gynigion sy'n effeithio ar elusennau fod yn gyson â chyfraith elusennau a diben datganedig yr ymddiriedolaeth elusennol.[15] Os oes unrhyw ansicrwydd, **dylid** ceisio cyngor gan y Comisiwn Elusennau neu Weinidogion Cymru (fel Prif Reoleiddiwr cyrff llywodraethu).

---

[15] Mae cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig a gwirfoddol yn elusennau o dan adran 23 o Ddeddf 1998, a gall safleoedd ysgolion cymunedol fod yn ddarostyngedig i fuddiannau elusennol hefyd. Mae corfforaethau addysg bellach a chorfforaethau colegau chweched dosbarth yn elusennau o dan adrannau 22A a 33M o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

O dan adran 82 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (“Deddf 1998”), mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, trwy orchymyn, i wneud addasiadau i weithred ymddiriedolaeth.

Cyn gwneud gorchymyn, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori â chorff llywodraethu’r ysgol, unrhyw ymddiriedolwyr sy’n dal eiddo ar ymddiriedolaeth at ddibenion yr ysgol; yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Loegr neu’r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol; ac unrhyw bersonau eraill a ystyriant yn briodol.

## Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

1.24 Prif ddiben ysgolion yw darparu addysg a **dylai** unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal. Serch hynny, mewn rhai ardaloedd, efallai mai’r ysgol yw’r prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i’r gymuned leol.

1.25 **Rhaid** i’r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy’n cyflwyno’r cynigion ddangos bod effaith cau’r ysgol ar y gymuned wedi’i hasesu drwy lunio **asesiad o’r effaith ar y gymuned** (gweler Atodiad C), a dangos sut y gellid cadw unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd.

1.26 Wrth ystyried a yw’n briodol cau ysgol, **dylid** rhoi sylw arbennig i’r canlynol:

- a ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu’r rhesymau dros beidio ag ystyried yr opsiwn hwn;
- a ellid ystyried dewisiadau amgen yn lle cau, megis clystyru, cydweithio, neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu’r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel dewis amgen;
- y posibilrwydd o wneud defnydd llawnach o’r adeiladau presennol fel ‘hwb cymunedol’ i ddarparu a chefnogi amrywiaeth o wasanaethau cymunedol, e.e., iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, cyfleusterau chwarae, gweithgarwch cymdeithasol, ac ati;
- a fyddai’n ddichonadwy ac yn ddarbodus cydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am gydleoli gwasanaethau yn y Canllawiau ar Ysgolion Bro.

1.27 Er nad yw’r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgolion bach a oedd â llai na 10 o ddysgwyr adeg Cyfrifiad y mis Ionawr blaenorol o dan

Ddeddf 2013[16], eto i gyd **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n cyflwyno cynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir yn adran 1 o'r Cod.

## Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

1.28 Mae'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig o ran ysgolion gwledig mewn cysylltiad â rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn **rhaid** i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod yn **rhaid** bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.

### Dynodi ysgol yn 'ysgol wledig' at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau

1.29 Nodir bod ysgol yn ysgol wledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau gan ddefnyddio dosbarthiad gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef ei bod yn ysgol sydd wedi'i lleoli mewn pentref prin iawn ei boblogaeth, mewn pentrefan neu anheddiad gwasgaredig sy'n brin iawn ei boblogaeth, neu mewn pentrefan neu anheddiad gwasgaredig sy'n llai prin ei boblogaeth.

1.30 Atodir rhestr o ysgolion ar sail y dosbarthiad hwn yn Atodiad F. **Dylai** cynigwyr gyfeirio at y dynodiad a'r rhestr o ysgolion i gadarnhau a yw'r cynnig dan sylw i gau ysgol yn ymwneud ag ysgol wledig ac a yw'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau yn gymwys.

### Camau pellach penodol y mae'n ofynnol i'r cynigydd eu cymryd wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig

1.31 Yn ogystal ag ystyried y ffactorau ym mharagraffau 1.5 i 1.23 sy'n berthnasol yn achos pob cynnig, **rhaid** i'r cynigydd ddilyn y camau pellach isod os yw'r cynnig yn ymwneud â'r posibilrwydd o gau ysgol wledig.

### Llunio'r cynnig

1.32 Pan fydd y cynigydd yn ystyried llunio cynnig i gau ysgol wledig, **rhaid** i'r cynigydd nodi'n glir y rhesymau dros lunio'r cynnig, hynny yw, y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd yn dymuno ymateb iddynt drwy'r cynnig i gau'r ysgol.

1.33 **Rhaid** i'r cynigydd ystyried y rhesymau hyn wrth wneud ei benderfyniad ar gynnig neu unrhyw opsiynau amgen rhesymol, felly mae'n bwysig eu bod mor glir a phenodol â phosibl. Er enghraifft, efallai y byddai'r rhesymau yn ymwneud â llai o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol, anawsterau o ran cyflwyno'r cwricwlwm neu bryderon am adeilad yr ysgol.

---

[16] At ddibenion penderfynu a yw'n ofynnol ymgynghori, mae adran 56(1) o Ddeddf 2013 yn diffinio 'ysgol fach' fel 'ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud'.

1.34 Yn hytrach na nodi nad yw'r ysgol yn hyfyw mwyach, **dylai**'r cynigydd ystyried yn ofalus a nodi'r rhesymau pam mae o'r farn nad yw'r ysgol yn hyfyw mwyach.

**Nodi opsiynau amgen rhesymol**

1.35 **Rhaid** i'r cynigydd nodi unrhyw opsiynau amgen rhesymol yn lle'r cynnig a allai hefyd ymdrin â'r rheswm dros lunio'r cynnig. Mae'n bwysig sicrhau bod pob opsiwn amgen rhesymol a nodir yn cael ei ystyried yn briodol **cyn** i'r cynigydd benderfynu mynd ati i ymgynghori ar gau'r ysgol.

1.36 Y nod yw sicrhau, pan gynigir cau ysgol wledig, mai dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus iawn y penderfynir ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw, a hynny ar ôl ystyried pob opsiwn amgen rhesymol arall a chynnal asesiad clir o'i rinweddau a'i hyfywedd.

1.37 Dangoswyd bod ffedereiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig. **Rhaid** i gynigwyr ddangos sut y maent wedi ystyried ffedereiddio fel opsiwn amgen yn hytrach na chau ysgol wledig.

1.38 Mae ysgolion yn asedau cyhoeddus a chymunedol pwysig; mae'n bwysig ystyried eu dyfodol nid yn unig o safbwynt addysg, ond o safbwynt holl gyfrifoldebau awdurdod lleol. Ymhlith yr opsiynau i'w hystyried yn hytrach na chau ysgol, gellid trafod a oes lle i'r ysgol gael ei hintegreiddio'n well i broses ehangach rheoli asedau a chynllunio cymunedau awdurdod lleol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, greu cysylltiadau effeithiol â strategaethau lleol i adfywio cymunedau. Ceir enghreifftiau o opsiynau amgen eraill yn lle cau ysgol a allai fod yn werth eu hystyried ym mharagraff 1.26 uchod.

1.39 Fel yn achos pob cynnig i gau ysgol, **rhaid** i'r cynigydd baratoi asesiad effaith ar y gymuned, er mwyn ystyried effaith gyffredinol a hirdymor cau'r ysgol wledig ar bobl a'r gymuned, ac effaith colli'r adeilad fel cyfleuster cymunedol. **Dylai'r** cynigydd roi sylw i Atodiad C sy'n cynnwys enghreifftiau o'r hyn y **dylai'r** cynigydd ei ystyried fel rhan o'r asesiad effaith ar y gymuned.

1.40 Unwaith y bydd y cynigydd wedi nodi'r holl opsiynau amgen rhesymol, **rhaid** i'r cynigydd asesu, yn achos pob opsiwn:

- yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg;
- yr effaith debygol ar y gymuned; ac
- effaith trefniadau teithio gwahanol.

**Paratoi papur cynnig ar gyfer y sawl sy'n penderfynu**

1.41 Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 3 o'r Cod, **rhaid** cyflwyno papur ("y papur cynnig") i'r person(au) sy'n penderfynu a **ddylid** cynnal ymgynghoriad ar y cynnig ai peidio. Yn ogystal â manylion y ffactorau cyffredinol ym mharagraffau 1.5 i 1.23 o'r Cod, **rhaid** i'r papur gynnwys hefyd:

- y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol;
- rhestr o'r opsiynau amgen rhesymol yn lle cau a nodwyd; ac

- asesiad o’r effaith debygol a nodir ym mharagraff 1.40 uchod ar gyfer pob un o’r opsiynau amgen rhesymol a nodwyd.

1.42 **Ni ddylai’r** cynigydd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid mynd ati i ymgynghori hyd nes y bydd y gofynion rhagarweiniol hyn wedi’u bodloni gyntaf, ac oni bai ei fod wedi’i fodloni mai gweithredu yw’r ymateb mwyaf priodol i’r prif heriau a nodwyd fel y rheswm dros gau’r ysgol.

1.43 Er nad yw Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar gynigion i derfynu ysgolion bach a oedd â llai na 10 o ddysgwyr pan gynhaliwyd y cyfrifiad cynt, **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy’n cyflwyno cynigion o’r fath ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraffau 1.5 i 1.23 o’r Cod wrth ddatblygu ac ystyried cynigion. Os yw’r ysgol ar y rhestr o “ysgolion gwledig”, mae hyn yn cynnwys bodloni’r gofynion a nodir ym mharagraffau 1.28 i 1.43, sef “*Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig*.”

Gweler hefyd adrannau 3 i 6 o’r Cod ar gyfer gofynion sy’n gymwys mewn cysylltiad ag ymgynghori ar gynigion statudol sy’n ymwneud ag ysgolion a ddynodwyd yn rhai gwledig, eu cyhoeddi, penderfynu arnynt, a’u gweithredu.

## Ffactorau penodol i’w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu gau dosbarthiadau meithrin

1.44 **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau, yr ystafelloedd a’r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy’n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;
- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn ardal yr awdurdod lleol;
- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr yn y sector preifat a’r trydydd sector; ac
- y graddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg feithrin â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

## Ffactorau penodol i’w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu gau chweched dosbarth

1.45 **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol ond sy’n iau na 19 oed, a sut;
- a fydd cynigion yn cyfrannu at ddarparu amrywiaeth briodol ac eang o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel a lywir gan gyflogwyr sydd wedi’u targedu at ddysgwyr o bob gallu, a pharhau i ddarparu cyrsiau TGAU, UG/Safon Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, fel sy’n ofynnol o dan Ddeddf 2021 ac adran 33A-Q o

Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000") i gefnogi dysgwyr 14-19 oed, a sut;

- a yw'r cynigion yn debygol o arwain at gadw a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;
- y graddau y mae'r cynigion yn cefnogi darpariaeth ddigidol a/neu drefniadau dysgu cyfunol;
- y graddau y mae'r cynigion yn cyfrannu at wella'r arlwy ehangach i ddysgwyr 14-19 a'i ansawdd, gan ystyried safbwyntiau rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol;
- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion ac ar ddatblygu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd a rennir ag ysgolion eraill;
- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd darparwyr sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat;
- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i gwella yn y rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol, trefniadau partneriaeth lleol a'r ardal ehangach a hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16 a chefnogi'r ddyletswydd strategol ar Medr i 'hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg'.
- i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;
- sut y gallai cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr[17] sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol; a
- sut y mae cynigion yn cyd-fynd â'r ddyletswydd statudol i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed.[18] Mae cyfleusterau yn 'briodol' os ydynt o nifer digonol ac o ansawdd digonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc. Yn ogystal, rhaid i gyfleusterau o'r fath fodloni hawliau dysgwyr i ddilyn cyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol a luniwyd o dan adran 33A o Ddeddf 2000[19].

---

[17] Mae adran 6 o Fesur 2008 yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol ddarparu cludiant yn ôl ei ddisgresiwn os yw'n gweld yn dda i hwyluso trefniadau teithio dysgwyr. Mae paragraffau 1.98 i 1.105 o Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 Llywodraeth Cymru ar Deithio gan Ddysgwyr yn rhoi arweiniad pellach ar y ddarpariaeth hon.

[18] Ar ôl cychwyn y ddarpariaeth berthnasol o Ddeddf 2022, bydd y ddyletswydd statudol a osodir ar Weinidogion Cymru ar hyn o bryd gan adran 31 o Ddeddf 2000 yn cael ei diddymu a rhoddir dyletswydd statudol debyg ar Medr gan adran 93(1) o Ddeddf 2022.

[19] Ar ôl ei chychwyn, bydd Deddf 2022 yn diwygio adrannau 33A i 33E, 33G, 33I i 33K, 33N i 33Q o Ddeddf 2000 i roi swyddogaethau i Medr sy'n cynnwys cyfrifoldebau ar gyfer llunio'r cwricwlwm lleol, cynllunio a chyflawni hawliau cwricwlwm lleol i ddysgwyr (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg), a'r trefniadau ar gyfer cydweithio.

## Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu i sefydlu ysgol wirfoddol newydd

1.46 **Rhaid** i gyrff perthnasol ystyried y canlynol:

- a yw'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldeb i gynnal yr ysgol;
- a yw corff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldebau ariannol am waith atgyweirio a gwaith cyfalaf; ac
- a yw'r trefniadau arfaethedig o ran deiliadaeth tir yn rhoi sicrwydd digonol i'r ysgol o ran meddiannu'r safle.

  Pan na fydd trefniadau deiliadaeth tir wedi'u cadarnhau, gallai'r rhai sy'n penderfynu ar gynigion nodi eu bod yn gogwyddo o blaid cymeradwyo'r cynigion, yn amodol ar ddatrys y materion hynny yn foddhaol. Gallai penderfyniad o'r fath fod yn briodol pan na fydd hyrwyddwyr yn fodlon mynd i dreuliau cyfreithiol i ddatrys y mater deiliadaeth tan iddynt gael gwybod bod y cynigion yn debygol iawn o gael eu cymeradwyo.

## Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid cyfrwng iaith

1.47 Yn ogystal ag asesiad o'r effaith ar y Gymraeg y mae'n **rhaid** ei gynnal ar gyfer pob cynnig[20] (gweler Atodiad C), **rhaid** i gyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol.
- sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn achos yr olaf, nodi pam y bydd darpariaeth yn lleihau a dangos tystiolaeth o gamau lliniaru (gweler Atodiad C).

## Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid categori ysgol

1.48 **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:

- mae pob categori ysgol – cymunedol, sefydledig, gwirfoddol a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir - yn gydradd o ran statws;
- caiff pob cynnig a ganiateir i newid categori ysgol ei ystyried yn unol â'i rinweddau ei hun[21]; ac

---

**20** Atodlen 2 i Reoliadau 2015.

21 Ni chaniateir i ysgolion newid eu categori i sefydledig (adran 46(1) o Ddeddf 2013) ac ni chaniateir i ysgolion â chymeriad crefyddol ddod yn ysgolion cymunedol (adran 45(5) o Ddeddf 2013).

- a ellir nodi unrhyw fanteision. Gallai newid categori darfu ar y broses o redeg yr ysgol a/neu osod beichiau ychwanegol ar y corff llywodraethu a/neu ychwanegu cymhlethdod at drefniadau ad-drefnu neu dderbyn ysgolion. Felly, **dylai** fod rhagdybiaeth yn erbyn newidiadau pan na ellir nodi manteision.
- a oes unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol sy'n caniatáu iddi newid i'r categori a gynigir. Os oes unrhyw amheuaeth, neu os yw'n amlwg bod angen gwneud amrywiad i'r weithred ymddiriedolaeth, **dylai'r** cynigwyr gysylltu â'r Comisiwn Elusennau'n ddi-oed.

## Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo, neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol

### Polisïau ac egwyddorion

1.49 **Dylid** ystyried yr egwyddorion a'r cynlluniau a nodir mewn rhannau eraill o'r Cod wrth ystyried cynigion i ad-drefnu ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

1.50 **Rhaid** i gyrff perthnasol ystyried sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â dyletswydd yr awdurdod lleol i hyrwyddo cynhwysiant (h.y., darparu ar gyfer addysgu cyfran uwch o ddysgwyr ag ADY mewn lleoliadau prif ffrwd) lle bynnag y bo'n briodol i ddiwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc, ac â'i strategaeth gyffredinol i sicrhau DDdY ddigonol ar gyfer yr holl ystod o ADY.

1.51 **Dylai** cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau a nodir isod mewn perthynas â chynigion sy'n effeithio ar ysgolion arbennig ac unedau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

### Safonau'r ddarpariaeth

1.52 Yn ogystal â'r ystyriaethau arferol mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth, **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a fydd y cynigion yn gwella safonau ystafelloedd neu adeiladau i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys hygyrchedd adeiladau yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- sut y bydd y cynigion yn ymdrin ag unrhyw faterion o ran iechyd, diogelwch a lles;
- sut y bydd y cynigion yn hyrwyddo rhagor o gynhwysiant, lle y bo'n briodol;
- sut y bydd y cynigion yn helpu'r ysgol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddysgwyr ag ADY;[22] ac

---

[22] Deddf 2018, adran 47.

- effaith cynigion ar ddarpariaeth DDdY arall yn y cyffiniau ac yn ardal ehangach yr awdurdod lleol, gan gynnwys y tu allan i'r sir lle y bo'n briodol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

1.53 Yn ogystal â'r ystyriaethau a restrir ym mharagraffau 1.12 i 1.20 **dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- a oes angen am fath penodol o DDdY yn yr ardal;
- a oes gormod o DDdY yn yr ardal;
- a fyddai DDdY yn fwy effeithiol neu effeithlon pe bai darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud; ac
- effaith y cynigion hynny ar gludiant dysgwyr ag ADY.

**Ffactorau eraill**

1.54 **Dylai** cyrff perthnasol ystyried:

- sut y bydd newidiadau i DDdY mewn ysgolion yn debygol o effeithio ar yr holl wasanaethau eraill a ddarperir mewn ardal i ddysgwyr ag anableddau a/neu ADY.

## Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion

1.55 Wrth gymeradwyo cynigion, o ran y cyrff perthnasol sy'n eu cynnig:

- **rhaid** iddynt ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill (gweler paragraff 5.9 ynghylch pryd y **dylid** ystyried bod cynnig yn gysylltiedig)
- **rhaid** iddynt sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach);
- **rhaid** iddynt sicrhau bod y cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- **rhaid** iddynt ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- **rhaid** iddynt ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;
- **dylent** ystyried a oes unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, **ni ddylid** cymeradwyo cynigion o'r fath; ac
- **ni chânt** gymeradwyo cynigion i newid categori pan fo angen amrywio'r weithred ymddiriedolaeth ond nad yw hynny wedi digwydd eto.

1.56 Pan fydd cyrff perthnasol yn penderfynu ar gynigion:

- **rhaid** iddynt ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill (gweler paragraff 5.9 ynghylch pryd y **dylid** ystyried bod cynnig yn gysylltiedig);
- **rhaid** iddynt ystyried i ba raddau y mae'r ymgynghoriad statudol wedi'i gynnal yn unol â'r Cod (nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach);
- **rhaid** iddynt ystyried i ba raddau y mae'r cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol;
- **rhaid** iddynt ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- **rhaid** iddynt ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;
- **dylent** ystyried a oes unrhyw fanteision, yn achos cynnig i newid categori ysgol. Os na ellir nodi unrhyw fanteision, **ni ddylid** cymeradwyo cynigion o'r fath; ac
- **ni chânt** gymeradwyo cynigion i newid categori pan fo angen amrywio'r weithred ymddiriedolaeth ond nad yw hynny wedi digwydd eto.

# Adran 2. Newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer

2.1 Mae angen gweithdrefnau statudol i wneud newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i alluogi newidiadau i gael eu gwneud pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac yn rhoi'r cyfle i bartïon â diddordeb leisio barn ar y broses.

## Elfennau ad-drefnu ysgolion y mae angen cyhoeddi cynigion ar eu cyfer

2.2 **Rhaid** i gynigion gael eu cyhoeddi[23] ar gyfer yr elfennau canlynol o ran ad-drefnu ysgolion:

- agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);[24]
- cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig);[25]
- gwneud newid rheoleiddiedig i ysgol a gynhelir;[26] a
- newid categori ysgol a gynhelir.[27]

## Cynigion i newid categori ysgol

2.3 Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, **dylid** nodi na chaniateir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n peri bod iddi gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt, neu sy'n peri iddi golli ei chymeriad crefyddol dynodedig.[28] Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol. Nid yw'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori.[29] Yn yr un modd, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir gwneud cynigion i ysgol o unrhyw gategori gael ei newid i fod yn ysgol sefydledig.[30]

## Newidiadau rheoleiddiedig

2.4 Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn disgrifio nifer o newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig) **na chaniateir** eu cyflawni oni bai bod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r corff llywodraethu a/neu Medr wedi

---

**23** Deddf 2013, adran 48.
**24** Deddf 2013, adrannau 41 a 44(a).
25 Deddf 2013, adrannau 43 a 44(c).
26 Deddf 2013, adrannau 42 a 44(b).
27 Deddf 2013, adran 45; Ac eithrio i sefydledig – mae adran 40(2) o Ddeddf 2013 yn gwahardd ysgolion rhag newid eu categori i sefydledig.
28 Deddf 2013, adran 40(5).
29 Deddf 2013, adran 45(5).
30 Deddf 2013, adran 40(2).

cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Cod. Er bod y newidiadau rheoleiddiedig yn cael eu disgrifio isod, mae angen cyfeirio'n uniongyrchol at Atodlen 2 i Ddeddf 2013.

2.5 **Newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir**

- trosglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd, oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilometr (un filltir) i brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu ei safleoedd presennol;[31]

- newid ysgol o ysgol un rhyw i ysgol gymysg neu fel arall. (Ystyrir bod ysgol yn derbyn dysgwyr o un rhyw yn unig os cyfyngir y dysgwyr a dderbynnir o'r rhyw arall i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac nad yw nifer y dysgwyr hynny yn fwy na 25% o'r grŵp oedran dan sylw).[32]

2.6 **Newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ac ysgolion arbennig cymunedol**

- newid o flwyddyn neu fwy i oedran ieuengaf neu oedran hynaf dysgwyr y darperir addysg ar eu cyfer yn yr ysgol fel arfer, pan fydd yr ysgol cyn ac ar ôl y newid yn darparu addysg sy'n addas ar gyfer gofyniad dysgwyr o oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n darparu addysg sy'n addas ar gyfer gofynion dysgwyr dros oedran ysgol gorfodol;[33]

- cyflwyno darpariaeth addysg amser llawn sy'n addas ar gyfer gofynion dysgwyr dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sy'n darparu addysg amser llawn sy'n addas ar gyfer gofynion dysgwyr o oedran ysgol gorfodol neu derfynu darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol sy'n parhau i ddarparu addysg amser llawn sy'n addas ar gyfer gofynion dysgwyr o oedran ysgol gorfodol;[34]

- newid cyfrwng addysgu dosbarth o ddysgwyr mewn grŵp neu grwpiau oedran (gan gynnwys dysgwyr meithrin) mewn ysgol gynradd (neu addysg gynradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) sy'n dod o dan y disgrifiad yng ngholofn 1 o'r tabl isod fel y bydd yn dod o dan y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.[35]

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd neu leihad o fwy nag 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% | Cynnydd neu leihad o fwy nag 20% yn |

[31] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 2.
[32] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 3.
[33] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 5.
[34] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 6.
[35] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 7.

| | |
|---|---|
| o’r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. | yr addysgu sy’n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Mae mwy nag 80% o’r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy’n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Mae mwy nag 80% o’r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhywfaint o’r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy’n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynhelir mwy na 10% o’r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynhelir mwy na 10% o’r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

- newid cyfrwng addysgu dysgwyr mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol uwchradd (neu addysg uwchradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) sy’n dod o dan y disgrifiad yng ngholofn 1 o’r tabl isod fel y bydd yn dod o dan y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.[36]

| **Colofn 1** | **Colofn 2** |
|---|---|
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr. | Lleihad o bedwar neu ragor yn nifer y pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr. |
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddysgwr. | Lleihad o bedwar neu ragor yn nifer y pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddysgwr. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i bob dysgwr. | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddysgwr. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg bob dysgwr. | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu’n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr. |

[36] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 8.

| | |
|---|---|
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl nac yn bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwr. |
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddysgwr. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl nac yn bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddysgwr. |

(Diffinnir pynciau perthnasol fel unrhyw bynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir mewn ysgol.)

### 2.7 **Newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol**

- ehangu safle ysgol (heb gynnwys ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25% neu gan 200 o ddysgwyr, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r cynnig i ehangu. Y "dyddiad priodol" yw'r dyddiad diweddaraf o blith:

  - y dyddiad sydd 5 mlynedd cyn y dyddiad y bwriedir gweithredu'r cynigion i ehangu'r ysgol;
  - y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddysgwyr gyntaf;
  - y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys lle gwelwyd lleihad blaenorol yng nghapasiti ysgol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.[37]

  At ddibenion ehangu safle ysgol, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (ym [Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/mesur-capasiti-ysgolion-yng-nghymru-cylchlythyr.pdf) ar hyn o bryd);[38]

  "Ehangu dros dro" yw ehangu safle ysgol lle rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, ar waith am lai na 3 blynedd.[39]

- gwneud ehangiad dros dro o'r ysgol yn ehangiad parhaol, pan fyddai'r ehangiad dros dro hwnnw wedi bod yn newid rheoleiddiedig pan y'i gwnaed oni bai am y ffaith mai dros dro ydoedd;[40]
- lleihau capasiti ffisegol ysgol brif ffrwd, ac eithrio pan fydd y capasiti arfaethedig yn fwy na nifer uchaf y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol unrhyw bryd

[37] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 10.
[38] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 14(a), https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/mesur-capasiti-ysgolion-yng-nghymru-cylchlythyr.pdf.
[39] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 14(b).
[40] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 12.

yn ystod y 2 flynedd ysgol flaenorol cyn cyhoeddi'r cynnig. Yn y cyd-destun hwn, pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (ym Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd);[41]

- cyflwyno neu ddileu darpariaeth DDdY neu unrhyw newid yn y math o'r ddarpariaeth hon. Dyma le mae'r ddarpariaeth mewn ysgol brif ffrwd ond mae'r disgyblion a dderbynnir yn ychwanegol at nifer derbyn yr ysgol. Hefyd, **rhaid** i'r awdurdod lleol gydnabod bod y ddarpariaeth yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer disgyblion ag ADY;[42]
- cyflwyno neu derfynu trefniadau bandio ar gyfer derbyn disgyblion i ysgol brif ffrwd (o dan adran 101(1) o Ddeddf 1998);[43]
- cyflwyno neu derfynu darpariaeth breswyl, neu gynnydd neu leihad gan 50 o ddisgyblion neu 50% o'r capasiti yn y ddarpariaeth breswyl mewn ysgolion prif ffrwd, pa un bynnag sydd fwyaf.[44]

## 2.8 Newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion arbennig cymunedol

- ac eithrio os yw'r ysgol mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y dysgwyr y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer a fyddai, ar y cyd â phob cynnydd blaenorol o'r fath yn nifer y dysgwyr, yn cynyddu nifer y dysgwyr 10% neu gan nifer perthnasol y dysgwyr o'r fath (pa un bynnag sydd leiaf). Y nifer perthnasol yw 5 os mai dim ond darpariaeth breswyl a gynigir gan yr ysgol, ac 20 mewn achosion eraill. Ystyrir unrhyw gynnydd blaenorol yn nifer y dysgwyr o'r dyddiad priodol. Y dyddiad priodol yw'r dyddiad diweddaraf o blith y canlynol:
  - 19 Ionawr 2012;
  - y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddysgwyr gyntaf;
  - y dyddiad (neu'r dyddiad diweddaraf) pan weithredwyd unrhyw gynigion statudol blaenorol a oedd yn golygu ehangu safle'r ysgol.[45]
- cyflwyno neu derfynu'r ddarpariaeth breswyl, neu newid y ddarpariaeth breswyl fel bod nifer y dysgwyr y gwneir darpariaeth ar eu cyfer yn cynyddu neu'n lleihau 5 dysgwr neu ragor;[46]
- newid yn y math o ADY y mae ysgol arbennig wedi'i threfnu i ddarparu ar ei gyfer.[47]

---

[41] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 13. Effaith hyn yw y bydd ysgolion â chapasiti dros ben yn gallu dileu'r capasiti hwnnw heb yr angen am gynnig statudol. Fodd bynnag, os bydd ysgolion yn llawn neu bron yn llawn, **rhaid** cyhoeddi cynnig i leihau capasiti'r ysgol.
[42] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 15.
[43] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 16.
[44] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 17.
[45] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 19.
[46] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 20.
[47] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 21.

2.9 **Newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion meithrin a gynhelir**

- ehangu'r man addysgu, neu wneud ehangu dros dro y man addysgu yn ehangu parhaol, mewn ysgol feithrin, a hynny 50% neu ragor;[48]
- ychwanegu neu ddileu darpariaeth y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei bod yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer dysgwyr ag ADY, neu unrhyw newid yn y math o'r ddarpariaeth honno;[49]
- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddysgwyr yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, newid fel bod yr holl ddysgwyr yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg;[50]
- ar gyfer ysgol feithrin lle yr addysgir grŵp o ddysgwyr yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, newid fel bod yr holl ddysgwyr yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.[51]

## Pwy all wneud cynnig?

2.10 Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i:

- sefydlu,[52] terfynu[53] neu wneud newid rheoleiddiedig i[54] ysgol gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir;
- terfynu ysgol wirfoddol neu sefydledig;[55]
- cynyddu neu leihau capasiti ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.[56]

2.11 Caiff cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, sefydledig neu wirfoddol wneud cynigion i newid categori eu hysgol.[57]

2.12 Caiff cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig neu wirfoddol wneud cynigion i:

- derfynu eu hysgol;[58]
- gwneud newid rheoleiddiedig i'w hysgol.[59]

---

[48] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 23.
[49] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 24.
[50] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 25(1).
[51] Deddf 2013, Atodlen 2, paragraff 25(2).
[52] Deddf 2013, adran 41(1).
[53] Deddf 2013, adran 43(1).
[54] Deddf 2013, adran 42(1)(a) a (d).
[55] Deddf 2013, adran 43(1)(a).
[56] Deddf 2013, adran 42(1)(c).
[57] Deddf 2013, adran 45. Cyfeiriwch at baragraff 2.2. o'r Cod hwn i gael gwybodaeth am gyfyngiadau ar newidiadau y gellir eu gwneud.
[58] Deddf 2013, adran 43(2).
[59] Deddf 2013, adran 42(2).

2.13 Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd.[60] Fodd bynnag, **dylai** awdurdodau lleol weithio gyda'r corff crefyddol perthnasol os mai cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol â chymeriad crefyddol sydd dan sylw.

2.14 Ni chaniateir sefydlu ysgol sefydledig nac ysgol arbennig sefydledig newydd yng Nghymru.[61]

2.15 Caiff awdurdodau lleol wneud cynigion i ychwanegu chweched dosbarth mewn ysgol neu gau chweched dosbarth mewn ysgol uwchradd wirfoddol a sefydledig sy'n parhau i ddarparu addysg ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol, ond dim ond os ydynt wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud hynny yn gyntaf.[62] **Rhaid** cael cydsyniad drwy wneud cais ysgrifenedig sy'n nodi'n glir resymeg yr awdurdod lleol dros y cynnig.

2.16 Mae gan Medr bwerau mewn perthynas ag ailstrwythuro addysg chweched dosbarth ysgolion[63]. Mae'r pwerau hynny'n cynnwys Medr yn gallu cyfarwyddo, mewn rhai amgylchiadau, ac yn unol â'r Cod, awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i gyflwyno cynigion ynghylch addysg chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.[64] Dylid trin cynigion a gyflwynir gan awdurdod lleol ar gyfarwyddyd Medr fel cynnig awdurdod lleol at ddibenion y Cod.

2.17 Pan fydd Medr wedi cyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion chweched dosbarth (gweler adran 9 o'r Cod), a naill ai bod y cynigion wedi cael eu cyhoeddi yn unol â'r cyfarwyddyd neu fod y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi mynd heibio, caiff Medr wneud y cynigion y gellid bod wedi eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd.[65]

2.18 Fodd bynnag, dim ond os yw wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru yn gyntaf y caiff Medr wneud ei gynnig ei hun i agor neu gau ysgol chweched dosbarth neu ychwanegu neu gau chweched dosbarth mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig. [66] **Rhaid** cael cydsyniad drwy wneud cais ysgrifenedig sy'n nodi'n glir resymeg Medr dros y cynnig.

2.19 Pan fydd Medr yn gwneud cynigion chweched dosbarth fel y disgrifir uchod, bydd unrhyw gynigion sydd wedi cael eu gwneud gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu a'u cyhoeddi yn unol â'r cyfarwyddyd yn cael eu trin fel pe baent wedi'u tynnu'n ôl.[67]

2.20 Ceir gwybodaeth fanylach am rôl Medr wrth wneud cynigion chweched dosbarth yn adran 9 o'r Cod.

---

**60** Deddf 2013, adran 41(2).
**61** Deddf 2013, adran 40(2).
**62** Deddf 2013, adran 42(1)(b).
63 Deddf 2013, Pennod 3A o Ran 3.
64 Deddf 2013, adran 63A.
65 Deddf 2013, adran 63C(1) a (2).
66 Deddf 2013, adran 63C(3).
67 Deddf 2013, adran 63C(4).

# Adran 3. Ymgynghori

## Egwyddorion

3.1 Mae adran 48 o Ddeddf 2013 yn nodi bod yn **rhaid** cynnal ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgolion a wneir o dan adrannau 41 a 45 cyn eu cyhoeddi. Yn ogystal â hyn, **rhaid** cynnal ymgynghoriad o flaen llaw hefyd ar gynigion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 68 i sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer ADY neu gynigion a gyhoeddir gan Medr o dan adran 63C i ailstrwythuro chweched dosbarth ysgolion.

3.2 Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol fach.[68] Fodd bynnag, pan fydd cynnig i gau ysgol yn ymwneud ag ysgol fach sydd wedi'i dynodi'n ysgol wledig, **dylai** awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n cyflwyno cynigion o'r fath ystyried y ffactorau a nodir yn adran 1 o'r Cod, gan gynnwys y gofynion pellach sy'n gymwys mewn cysylltiad â chau ysgolion gwledig.

3.3 Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y **dylai'r** broses ymgynghori:

- gael ei chynnal pan fydd cynigion ar gam ffurfiannol o hyd;
- cynnwys digon o wybodaeth a rhesymau dros gynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus;
- rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb; a
- sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwybodol pan wneir y penderfyniad terfynol.

3.4 Mae'r broses a'r canllawiau canlynol wedi'u datblygu drwy roi sylw dyladwy i'r egwyddorion a restrir uchod. Bydd angen i'r rhai sy'n ystyried cyflwyno cynigion fod yn gwbl ymwybodol o'r broses hon a'r canllawiau. Fodd bynnag, **rhaid** i gynigwyr ystyried y pedair egwyddor sylfaenol a chymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r egwyddorion hynny yn llawn.

## Sylw i fanylion

3.5 Mae'n hanfodol bod cynigwyr yn ceisio ac yn cyflawni safonau uchel o ran yr wybodaeth a fydd yn sail i ymgyngoriadau ysgol ac yn y dogfennau ymgynghori a gyhoeddir. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ofalus gan gymunedau, staff ysgol a rhieni, a gall camgymeriadau yn y manylion danseilio eu hyder yn y cynnig. Gall methiant i ddarparu dogfennau ymgynghori cywir, o ansawdd uchel, arwain at roi'r gorau i ymgyngoriadau, proses dipyn yn hwy na'r disgwyl a mwy o wrthdaro â chymunedau.

---

[68] Deddf 2013, adran 48(3). Diffinnir 'ysgol fach' yn adran 56(1) o Ddeddf 2013 fel ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud. Dewisir y dyddiad hwn gan mai ar y dyddiad hwn y mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion i Lywodraeth Cymru; mae hwn yn cynnwys nifer y dysgwyr ar y gofrestr.

3.6 Pan fo cynigwyr yn gofyn am adborth ar sawl cynnig mewn un ymgynghoriad, er enghraifft lle bydd sawl ysgol yn cau, **dylid** cymryd gofal i sicrhau bod amgylchiadau pob ysgol yr effeithir arni yn cael eu hystyried a'u mynegi'n briodol mewn deunyddiau ymgynghori. Dylai'r holl ymgyngoreion fod yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth a ddarperir am yr ysgolion y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt yn hawdd a deall yr wybodaeth honno. Yn ogystal, **dylai** cynigwyr ei gwneud yn glir y gall ymgyngoreion ymateb i gynigion unigol, rhai o'r cynigion neu'r holl gynigion.

3.7 Weithiau, cyflwynir cynigion statudol o ganlyniad i adolygiadau strategol o'r ddarpariaeth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Er ei bod yn arfer dda ymgynghori ar adolygiadau o'r fath, **ni chaiff** ymgynghoriad o'r fath gymryd lle'r ymgynghoriad ffurfiol sydd ei angen ar gynigion unigol yn unol â'r Cod.

3.8 O bryd i'w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad 'anffurfiol' â rhai rhanddeiliaid penodol yn gynharach yn y broses o ddatblygu cynigion. **Ni chaiff** ymgynghoriad o'r fath gael ei ystyried fel pe bai'n disodli unrhyw ran o'r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod.

## Gweithdrefnau

3.9 Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau yn codi pan fydd cynigwyr o'r farn y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr i ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn.

3.10 Caiff cynigwyr ddefnyddio ffyrdd ychwanegol o ymgysylltu ag ymgyngoreion, fel y bo'n briodol yn eu tyb hwy. Er enghraifft, gallai diwrnodau agored neu sesiynau 'galw heibio' a fforymau ar-lein fod yn ffordd gyfleus i bartïon â buddiant gael gwybodaeth, gofyn am eglurder a gwneud sylwadau.

3.11 Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae eu tir a/neu eu hadeiladau wedi'u dal ar ymddiriedolaeth, neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** i'r cynigydd ymgynghori â'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. **Rhaid** i'r cynigydd ganiatáu 28 o ddiwrnodau ar gyfer derbyn sylwadau a **rhaid** iddo roi sylw dyladwy i'r sylwadau hynny cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol.

3.12 Pan fydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad ac y mae'r cynigwyr yn penderfynu ei ystyried, **rhaid** iddynt ymgynghori eto ar yr opsiwn hwn cyn symud ymlaen i'w gyhoeddi.

## Dogfen ymgynghori

3.13 **Rhaid** i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar eu gwefan (os oes un ganddynt) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol, os yw'n wahanol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Dylid** ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill pe bai problemau o ran hygyrchedd fel arall.

3.14 **Rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol[69] yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynnig. **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, a rhaid bod o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. **Ni ddylid** cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn ysgol sydd wedi'i neilltuo (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).

3.15 **Rhaid** anfon llythyr neu e-bost i'r canlynol yn eu hysbysu bod y ddogfen ymgynghori ar gael, a bod modd iddynt ofyn am gopi caled os dymunant (ond gweler hefyd baragraff 3.36 ar Ymgynghori â phlant â phobl ifanc):

(a) rhieni (a darpar rieni os oes modd), gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;

(b) yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;

(c) aelodau o staff ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;

(d) awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni (gan gynnwys timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol);

(e) unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys awdurdodau lleol yn Lloegr, lle y bo'n briodol) y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arno, gan gynnwys yn achos DDdY benodedig unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli dysgwyr ag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;

(f) Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig ar gyfer yr ardal y lleolir yr ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt ynddi;

(g) unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;

(h) corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;

(i) Gweinidogion Cymru*;

(j) Aelodau o Senedd Cymru ac Aelodau o Senedd y DU sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;

[69] Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

(k) Estyn;

(l) undebau athrawon ac undebau staff sy’n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;

(m) y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;

(n) Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;

(o) unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;

(p) yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle maent yn bodoli;

(q) gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arnynt a’r sefydliadau ambarél cenedlaethol sy’n eu cefnogi - Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;

(r) yn achos cynigion sy’n effeithio ar DDdY, unrhyw gyrff iechyd perthnasol neu gyrff perthnasol yn y trydydd sector sydd â buddiant ym marn y cynigydd;

(s) yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol sy’n destun y cynigion;

(t) yn achos cynigion sy’n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; ac

(u) yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith.

* Yn achos Gweinidogion Cymru, **rhaid** anfon negeseuon e-bost i flwch post canlynol Llywodraeth Cymru: SGOA@llyw.cymru. Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion Cymru yn unigol.

3.16 **Rhaid** i gynigwyr sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ym mharagraffau 1.5 i 1.23 sy’n gymwys i bob cynnig. Yn achos pob cynnig, **rhaid** i’r ddogfen ymgynghori gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

**Disgrifiad a manteision**

3.17 **Rhaid** i’r ddogfen ymgynghori gynnwys:

- disgrifiad manwl o’r sefyllfa bresennol, sy’n amlinellu ei chryfderau a’i gwendidau a’r rhesymau pam yr ystyrir bod angen newid;

- disgrifiad manwl o’r cynnig neu’r cynigion (caiff cynigydd ymgynghori ar fwy nag un cynnig posibl), yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu’r cynigion ac unrhyw drefniadau interim arfaethedig y gellid bod eu hangen ar gyfer eu gweithredu. Wrth ddisgrifio’r cynigion, fel arfer **dylai** cynigwyr gyfeirio atynt gan ddefnyddio’r termau a nodir yn y Cod (e.e., cau ysgol), ond os bydd dwy ysgol bresennol neu fwy

yn uno'n un ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle (e.e., os bydd hen ysgol fabanod ac ysgol iau yn uno i greu ysgol gynradd), gellid defnyddio'r termau 'uno' neu 'cyfuno';

- manteision disgwyliedig y cynigion ac anfanteision o gymharu â'r sefyllfa bresennol;
- unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ac unrhyw fesurau sy'n ofynnol i reoli'r rhain;
- disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros eu gwrthod (ond gweler paragraffau 1.28 i 1.43 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig);
- gwybodaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio dysgwyr pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu a'r effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth.

**Manylion yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac ysgolion/sefydliadau addysg eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt**

3.18 **Rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gynnwys:

- enwau, lleoliadau a chategorïau (h.y. cymunedol, gwirfoddol a reolir, gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig) pob ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt (e.e., yn achos cynnig i gau ysgol neu derfynu darpariaeth chweched dosbarth, **rhaid** darparu gwybodaeth am <u>bob</u> ysgol/darpariaeth chweched dosbarth yn y cyffiniau, gan gynnwys unrhyw ysgolion /sefydliadau addysg eraill amgen y gellid yn rhesymol ystyried y gallai dysgwyr ddymuno trosglwyddo iddynt; ysgolion bwydo i ysgolion uwchradd; ysgolion yn yr ardal leol, ni waeth beth fo categori'r ysgol na chyfrwng iaith y ddarpariaeth).
- nifer y dysgwyr ar y gofrestr ar y pryd[70] a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol mewn ysgolion sy'n destun y cynigion a phob ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- rhagolygon pum mlynedd o gofrestrau dysgwyr, ym mhob ysgol sy'n destun y cynigion a phob ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni ar hyn o bryd (h.y., yn seiliedig ar drefn bresennol ysgolion) ac yn y dyfodol, pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu;

[70] Ar gyfer ysgolion cynradd, **dylid** dangos nifer y dysgwyr meithrin ar wahân ac **ni ddylid** eu cynnwys mewn rhagolygon.

- capasiti lleoedd i ddysgwyr[71] pob ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt;
- nifer y lleoedd meithrin yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- gwybodaeth am ansawdd ystafelloedd ac adeiladau yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg cyflwr mwyaf diweddaraf yr awdurdod lleol gan ddefnyddio categorïau arolwg blynyddol o adeiladau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy;
- cyfrwng iaith yr ysgolion sy'n destun y cynigion a phob ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni (gan ddefnyddio Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru).

## Ansawdd a safonau mewn addysg

3.19 Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gynnwys y canlynol:

- Gan gyfeirio at dri maes arolygu Estyn, dadansoddiad o effaith debygol y cynnig ar:
  - Addysgu a dysgu
  - Llesiant, gofal, cymorth ac arweiniad
  - Arwain a gwella

  yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni neu arno.

- gwybodaeth o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar yr ysgolion sy'n destun y cynigion a phob ysgol y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni. Yn achos cynnig i gau ysgol, **dylai** hyn gynnwys unrhyw ysgolion amgen y gall dysgwyr yn rhesymol ddewis trosglwyddo iddynt.

- effaith debygol y cynigion ar allu ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt, i gyflwyno'r cwricwlwm llawn.

## Cymraeg mewn Addysg

[71] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru".

3.20 Yn ogystal â'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg y mae'n **rhaid** ei gynnal ar gyfer pob cynnig, **rhaid** i'r ddogfen ymgynghori nodi:

- i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd

- sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn achos yr olaf, nodi pam y bydd darpariaeth yn lleihau a dangos tystiolaeth o gamau lliniaru.

**Cyllid**

3.21 Mewn cysylltiad ag ystyriaethau ariannol, **rhaid** i'r ddogfen ymgynghori nodi:

- costau ariannol y cynnig ac unrhyw arbedion posibl (gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y costau presennol fesul dysgwr ac amcanestyniad o'r costau ar ôl gweithredu'r cynnig) - cyfalaf a rheolaidd (gan gynnwys costau cludiant i'r ysgol a chostau staff, lle y bo'n briodol);
- ffynonellau cyllid cyfalaf;
- sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion cost rheolaidd eu defnyddio.

**Tir ac adeiladau**

3.22 **Rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gynnwys:

- manylion unrhyw dir neu adeiladau y gellid bod angen eu trosglwyddo neu eu gwaredu o ganlyniad i'r cynigion.

**Manylion ymgynghori**

3.23 **Rhaid** i'r ddogfen ymgynghori gynnwys:

- manylion o ran sut y gall pobl leisio eu barn gan gynnwys y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a'r dyddiad cau ar gyfer y sylwadau hynny;
- manylion o ran sut y gall pobl ofyn cwestiynau eraill am y cynigion neu awgrymu opsiynau amgen i'r cynigion;
- datganiad i'r perwyl na chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynnig ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad y gall gwrthwynebiadau gael eu cofrestru;
- esboniad o'r broses gyhoeddi, sut i gyflwyno gwrthwynebiadau a sut y penderfynir ar gynigion cyhoeddedig;
- sut y gall ymgyngoreion ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein neu'n ysgrifenedig (ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad);
- cyfle i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael eu hysbysu pan gaiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.

3.24 Pan fydd cynigion yn cynnwys sefydlu ysgol newydd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori hefyd:

- y nifer derbyn a'r trefniadau derbyn arfaethedig;
- ystod oedran;
- capasiti lleoedd dysgwyr a/neu nifer y lleoedd meithrin;
- lleoliad (gan gynnwys map, lle y bo'n bosibl gwneud hynny mewn fformat hygyrch[72]);
- categori (e.e., cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir);
- categori iaith (gan ddefnyddio Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)
- manylion yr adeiladau a'r ystafelloedd arfaethedig, gan gynnwys rhestr o'r cyfleusterau arfaethedig;
- yn achos uned adnoddau arbennig mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig, gwybodaeth am ADY y dysgwyr y cynigir eu derbyn;
- trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol (gan gynnwys unrhyw drefniadau pontio), gan gynnwys copi o bolisi cludiant yr awdurdod lleol.[73]

3.25 Pan fydd cynigion yn cynnwys cau ysgol, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

---

[72] Mae canllawiau a allai helpu gyda darparu dogfennau hygyrch ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/creu-dogfennau-hygyrch
[73] Mae adran 3 o Fesur 2008 yn nodi trothwy ar gyfer hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, sef dwy filltir neu fwy ar gyfer addysg gynradd a thair milltir neu fwy ar gyfer addysg uwchradd orfodol [ond mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol unigol bolisïau mwy hael].

- manylion unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol, a'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r rhain (*gweler hefyd baragraffau 1.28 i 1.43 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig)*
- effaith debygol cynigion ar y gymuned leol (asesiad effaith ar y gymuned, gweler Atodiad C).
- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir yn y cynigion.

3.26 Yn achos darpariaeth amgen[74] **rhaid** cynnwys y canlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- enw a lleoliad yr ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig y gall dysgwyr eu mynychu (gan gynnwys map);
- cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r dysgwyr yn trosglwyddo ohoni a'r ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr olaf;
- trefniadau derbyn yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;
- cymhariaeth o ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr ysgol y byddai'r dysgwyr yn trosglwyddo ohoni ac yn yr ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr olaf;
- gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sydd ei angen i sicrhau bod lle i'r plant sy'n trosglwyddo yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen;
- yr effaith ar deithiau dysgwyr, staff ac ymwelwyr i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac ar gostau cludiant i'r ysgol;
- gwybodaeth am lwybrau cerdded, olwyno a beicio sydd ar gael a thrafnidiaeth gyhoeddus i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen;
- cyfrwng iaith yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;
- unrhyw drefniadau pontio.

3.27 Pan fydd cynigion yn ymwneud â chau ysgol wledig a bod penderfyniad wedi cael ei wneud i ymgynghori ar y cynnig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori ynghyd â'r wybodaeth y mae'n **rhaid** ei chynnwys ar gyfer pob cynnig a'r wybodaeth y mae'n **rhaid** ei chynnwys ar gyfer cau ysgolion:

- y rheswm dros y cynnig i gau'r ysgol (h.y., disgrifiad o'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol ac y mae'r cynigydd yn dymuno mynd i'r afael â hwy);

[74] Yn y Cod, ystyr "darpariaeth amgen" yw yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig y gall dysgwyr eu mynychu.

- yr opsiynau eraill a nodwyd yn lle cau'r ysgol ac asesiad o'r opsiynau amgen hyn, gan gynnwys yr un materion y bu'n rhaid i'r cynigydd eu hasesu wrth lunio'r cynnig ym mharagraff 1.40.

3.28 Hefyd, **rhaid** hysbysu ymgyngoreion am eu cyfle i wneud y canlynol:

- gwneud sylwadau ynghylch yr opsiynau eraill a nodwyd gan y cynigydd yn lle cau'r ysgol yn ogystal ag ynghylch y prif gynnig;
- awgrymu opsiynau eraill yn lle cau'r ysgol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros gau'r ysgol (h.y. y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol y mae'r cynigydd yn ceisio mynd i'r afael â hwy).

3.29 Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ychwanegu neu gael gwared ar ddarpariaeth feithrin, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- digonolrwydd yr adeiladau, yr ystafelloedd a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin;
- a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;
- effaith debygol y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector; ac
- y graddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu y graddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.

3.30 Pan fydd y cynnig yn effeithio ar ddarpariaeth chweched dosbarth, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yn achos cau chweched dosbarth ysgol, enw a lleoliad yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig y gall dysgwyr eu mynychu (gan gynnwys map);
- cymhariaeth o ansawdd a safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgol y byddai'r dysgwyr yn trosglwyddo ohoni a'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig ac amlinelliad o unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr olaf;
- trefniadau derbyn yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;
- yr effaith debygol ar staff yr ysgolion a enwir yn y cynigion;
- yr effaith ar deithiau dysgwyr, staff ac ymwelwyr i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac ar gostau cludiant i'r ysgol;
- gwybodaeth am lwybrau cerdded, olwyno a beicio sydd ar gael a thrafnidiaeth gyhoeddus i'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen;
- cyfrwng iaith yn yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen arfaethedig;

- unrhyw drefniadau pontio;
- a fydd cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol ond sy’n iau na 19 oed yn yr ardal, a sut;
- a fydd cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy’n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac sydd wedi’u hanelu at ddysgwyr o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, UG/Safon Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, fel sy’n ofynnol o dan Ddeddf 2021 ac adran 33A i Q o Ddeddf 2000 i ddysgwyr 14 i 19 oed, a sut;
- a yw cynigion yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr sy’n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, a sut, gan ystyried materion a chostau cludiant i’r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o’r fath, a’r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;
- y graddau y mae cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 a phartneriaethau dysgu lleol;
- effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;
- sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat;
- sut y gallai cynigion effeithio ar gynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu wella’r ddarpariaeth honno, yn y rhwydwaith 14-19 neu’r trefniadau partneriaeth lleol a’r ardal ehangach, a hyrwyddo mynediad i’r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16;
- y graddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw’r sefyllfa bresennol ac opsiynau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16; a
- sut y gallai cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn y gall awdurdod lleol ei darparu i ddysgwyr[75] sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol.

3.31 Pan fydd cynigion yn ymwneud ag ysgol arbennig neu’n cynnwys unedau adnoddau arbenigol sydd wedi’u hatodi i ysgolion prif ffrwd, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar DDdY;
- sut y bydd cynigion yn cyfrannu’n fwy cyffredinol at wella ansawdd yr addysg a’r cymorth i blant ag ADY.

[75] Mae adran 6 o Fesur 2008 yn rhoi’r pŵer i awdurdod lleol i ddarparu cludiant yn ôl ei ddisgresiwn os yw’n gweld yn dda i hwyluso trefniadau teithio dysgwyr. Mae paragraffau 1.98 i 1.105 o Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014 Llywodraeth Cymru ar Deithio gan Ddysgwyr yn rhoi arweiniad pellach ar y ddarpariaeth hon.

3.32 Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid cyfrwng iaith, yn ogystal â'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg y mae'n **rhaid** ei gynnwys ar gyfer pob cynnig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- a fydd unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion neu unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;

- y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd;

- sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn achos yr olaf, nodi pam y bydd darpariaeth yn lleihau a **rhaid** dangos tystiolaeth o gamau lliniaru.

3.33 Pan fydd y cynnig yn ymwneud ag ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- yr effaith ar argaeledd a mynediad i leoedd mewn ysgolion/sefydliadau addysg eraill sydd â'r un cymeriad crefyddol dynodedig.

3.34 Pan fydd y cynnig yn ymwneud â newid categori, **rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori:

- effaith y newid categori ar drefniadau llywodraethu a phwerau'r corff llywodraethu mewn perthynas â pholisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth, a'r cwricwlwm; ac
- unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau derbyn, cyflogaeth, a'r cwricwlwm.

3.35 O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar nifer o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol, ond, ym mhob achos, **rhaid** i'r holl wybodaeth a nodir uchod gael ei darparu mewn perthynas â phob un o'r opsiynau a nodir.

## Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

3.36 **Rhaid** i gynigwyr wneud trefniadau addas i ymgynghori â dysgwyr ysgolion sy'n destun cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt (neu ran o ysgol yn achos darpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag ADY). Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny, er enghraifft dysgwyr sy'n mynychu ysgolion sy'n ysgolion bwydo. **Rhaid** i hyn gynnwys, o leiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion hyn ond **dylai** hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn yn briodol ac yn ymarferol. **Rhaid** i gyrff llywodraethu hwyluso'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad.

3.37 **Rhaid** i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth debygol ac sy'n eu galluogi i

lunio barn ar sail gwybodaeth. Mae'r safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru; **dylai** cynigwyr gyfeirio at y rhain a gweithredu'n unol â hwy.

3.38 Os ymgynghorir â dysgwyr unigol, **dylai** cynigwyr baratoi a dosbarthu fersiynau o'r ddogfen ymgynghori sy'n briodol i oedran y plant a'r bobl ifanc yr effeithir arnynt. **Dylai'r** ddogfen ymgynghori hefyd esbonio'n glir i blant a phobl ifanc y gwahaniaeth rhwng y cyfnod ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu ynghyd â sut a phryd y gallant wrthwynebu cynigion. Os bydd angen, **dylai** cynigwyr helpu plant a phobl ifanc sydd am gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

## Adroddiadau ymgynghori

3.39 **Rhaid** i gynigwyr gyhoeddi adroddiad ymgynghori[76] ar eu gwefan (os oes un ganddynt) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol, os yw'n wahanol.

3.40 **Rhaid** anfon llythyr neu e-bost at y rhestr o ymgyngoreion ym mharagraff 3.15, a hysbyswyd bod y ddogfen ymgynghori ar gael, yn eu hysbysu bod yr adroddiad ymgynghori ar gael a'u bod yn gallu cael copi papur ar gais.

3.41 **Rhaid** cyhoeddi adroddiad ymgynghori o leiaf ddwy wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol sy'n:

- crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain drwy roi eglurder, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny;
- nodi ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; ac
- ymateb i ymateb Estyn drwy roi eglurder, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny.

3.42 Gallai'r adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion – er enghraifft, i weithrediaeth yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu – ynghylch sut i weithredu, h.y., cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt ynghyd ag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw at y sefyllfa bresennol, neu wneud newidiadau sylweddol i'r cynigion ac ailymgynghori arnynt.

3.43 **Rhaid** i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw yn yr adroddiad ymgynghori at unrhyw safbwyntiau a fynegwyd gan blant a phobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r plant a'r bobl ifanc mewn fformat sy'n briodol i'w hoedran a lefel eu dealltwriaeth.

3.44 Pan fydd y cynnig yn ymwneud â chau ysgol wledig, yn ogystal â'r camau a nodir uchod, pan fydd y cynigydd yn adolygu'r cynnig cyn ei gyhoeddi, **rhaid** i'r cynigydd gynnal asesiad arall o'r cynnig a phob un o'r opsiynau amgen a nodwyd yn y papur ar y cynnig. Bydd hyn yn cwmpasu'r un materion â'r rhai yr oedd yn ofynnol i'r cynigydd eu hasesu wrth lunio'r cynnig ym mharagraff 1.40. Diben yr asesiad

---

[76] Deddf 2013, adran 48(5).

pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth arall a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall.

3.45 Yn ei adroddiad ymgynghori, **rhaid** i'r cynigydd esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut y mae'r asesiad hwn yn wahanol i'r asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, **rhaid** i'r cynigydd gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad.

3.46 Oni bai bod cynigwyr wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am estyniad amser a'u bod wedi'i roi, **rhaid** cyhoeddi cynigion o fewn 26 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad. Fel arall bydd y cynigion yn mynd yn ddi-rym a bydd yn **rhaid** dyroddi dogfen ymgynghori newydd i'w hatgyfodi.

3.47 **Rhaid** gwneud cais i Weinidogion Cymru am estyniad amser yn ysgrifenedig cyn i'r cyfnod o 26 o wythnosau ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'n fanwl y rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad. Wrth benderfynu a ddylent gymeradwyo estyniad, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y rhesymau a roddir dros y cais, natur y cynigion ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Mae Gweinidogion Cymru yn annhebygol o gymeradwyo unrhyw gais a fyddai'n arwain at fwy na blwyddyn rhwng diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddi hysbysiad statudol.

3.48 Pan nad awdurdod lleol yw'r cynigwyr, **dylent** fynd ati'n gynnar, h.y. cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau, i drafod eu bwriadau â'r awdurdod lleol a fyddai'n cynnal unrhyw ddarpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig arfaethedig.

3.49 **Ni ddylai** cynigwyr gyfeirio at y cyfnod a ganiateir ar gyfer gwrthwynebiadau fel y cyfnod ymgynghori. Dim ond i'r cyfnod cyn y gwneir penderfyniadau terfynol i fwrw ati i gyhoeddi cynnig y mae'r term ymgynghori yn gymwys.

3.50 Gall ymgyngoreion gyflwyno barn o blaid neu yn erbyn cynnig. **Rhaid** hysbysu ymgyngoreion na chaiff sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu trin fel gwrthwynebiadau ac, os dymunant wrthwynebu, y bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Os bydd ymgyngoreion yn cyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu y **dylai** ymateb a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori gael ei drin yn wrthwynebiad, **dylai** hyn gael ei dderbyn. **Dylai'r** rhai sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynigion wneud pob ymdrech i sicrhau y bydd y rhai sydd wedi mynegi gwrthwynebiad neu bryder yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ymwybodol bod hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi.

# Adran 4. Cyhoeddi cynigion statudol

## Dull cyhoeddi

4.1 Os bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, **rhaid** iddo gyhoeddi'r cynnig[77] ar ffurf hysbysiad (y cyfeirir ato yn y Cod fel "hysbysiad statudol").

4.2 **Rhaid** i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol[78] ac **ni ddylid** ei gyhoeddi ar ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd. **Rhaid** i'r cyfnod gwrthwynebu (gweler paragraff 4.5) gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad).

4.3 **Rhaid** i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi:

- ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol os yw'n wahanol;
- drwy gael ei osod wrth neu ger y brif fynedfa i unrhyw ysgol sy'n destun y cynnig, neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, bob un ohonynt;
- pan fydd ysgol newydd yn cael ei sefydlu, mewn man amlwg yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol;
- drwy roi copïau o'r hysbysiad i unrhyw ysgol sy'n destun cynigion i'w dosbarthu i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau o staff (caiff yr ysgolion ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost neu ddull electronig arall);
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, i rieni dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno.

4.4 At hynny, ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad statudol, **rhaid** anfon naill ai copi caled o'r hysbysiad neu e-bost sy'n cynnwys dolen i'r wefan berthnasol at y rhai* a gafodd gopi o'r ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori yn y rhestr ym mharagraff 3.15.

*Yn achos Gweinidogion Cymru, **rhaid** anfon negeseuon e-bost i flwch post canlynol Llywodraeth Cymru: SGOA@llyw.cymru. Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion Cymru yn unigol.

## Hyd y cyfnod gwrthwynebu

---

[77] Deddf 2013, adran 48(1).

[78] Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

4.5 Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion cyhoeddedig.[79] Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, **rhaid** cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig (gan gynnwys drwy e-bost) a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu").[80]

## Cynnwys hysbysiad statudol cyhoeddedig

4.6 **Rhaid** i'r hysbysiad statudol cyhoeddedig ar gyfer pob cynnig gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r personau neu'r corff sy'n cyhoeddi'r cynnig;
- dyddiad arfaethedig gweithredu'r cynnig (neu'r dyddiadau, os bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam);
- manylion sut i gael copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid anfon gwrthwynebiadau a'r cyfeiriad y dylid eu hanfon iddo, gan gynnwys y cyfeiriad e-bost perthnasol.

4.7 Yn ogystal â'r wybodaeth ym mharagraff 4.6 **rhaid** i hysbysiad statudol am gynnig i sefydlu ysgol newydd nodi:

- categori iaith arfaethedig yr ysgol fel y'i diffinnir yn y Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- enw'r awdurdod lleol cynhaliol arfaethedig;
- lleoliad (gan gynnwys map) safle'r ysgol (a'r cyfeiriad post lle y bo'n briodol);
- a fydd yr ysgol yn ysgol un rhyw neu'n ysgol gymysg;
- ystod oedran yr ysgol;
- categori'r ysgol - cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol;
- ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol fydd yr awdurdod derbyn;
- y trefniadau arfaethedig ar gyfer cludiant i ddysgwyr;
- nifer y dysgwyr i'w derbyn ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn weithredu gyntaf neu ar bob cam o'r broses weithredu – pennir y "nifer derbyn", yn unol â'r cyfrifiad a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (ym Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd);
- capasiti arfaethedig yr ysgol – pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (ym Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd);
- ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am y DDdY a fydd ar gael;

[79] Deddf 2013, adran 49(1).
[80] Deddf 2013, adran 49(2).

- a fydd gan yr ysgol gymeriad crefyddol, ac os felly, natur y cymeriad hwnnw a'r corff crefyddol priodol arfaethedig;
- a fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl gallu, a ganiateir gan adran 101 o Ddeddf 1998 (bandio dysgwyr);
- yn achos ysgol wirfoddol newydd, a fydd y cynigion yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol neu'r hyrwyddwyr ac, os bwriedir i'r cynigion gael eu gweithredu gan y ddau, y graddau y byddant yn cael eu gweithredu gan bob corff o'r fath.

4.8 Ochr yn ochr â'r wybodaeth ym mharagraff 4.6 **rhaid** i hysbysiad statudol am gynnig i newid ysgol neu newid ei chategori nodi:

- enw a chyfeiriad yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
- disgrifiad o'r newid arfaethedig neu'r newid categori arfaethedig;
- pan fydd y newid yn cynnwys ehangu'r ysgol, neu leihau capasiti, nifer presennol y dysgwyr, capasiti'r ysgol a'r capasiti arfaethedig - pennir "capasiti" yn unol â'r fformiwlâu a nodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (ym Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd);
- nifer y dysgwyr i'w derbyn ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynigion neu ar bob cam o'r broses weithredu;
- pan fydd y newid yn cynnwys ychwanegu neu gau chweched dosbarth ysgol, manylion darpariaeth chweched dosbarth amgen y gall dysgwyr ei mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau dros dro a threfniadau cludiant i ddysgwyr i ysgolion/sefydliadau addysg eraill amgen,
- yn achos newid yn y math o DDdY: y ddarpariaeth amgen i ddysgwyr ac unrhyw oblygiadau i ddarpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol o ganlyniad i'r newid.

4.9 Yn ogystal â'r wybodaeth ym mharagraff 4.6 **rhaid** i hysbysiad statudol am gynnig i derfynu ysgol nodi:

- enw a chyfeiriad yr ysgol i'w chau;
- enw'r awdurdod lleol cynhaliol;
- cymeriad crefyddol yr ysgol os oes ganddi un ac, os felly, y corff crefyddol priodol;
- manylion yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen y gall dysgwyr eu mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau dros dro a chategori iaith yr ysgolion amgen fel y'i diffinnir yn y Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- manylion unrhyw fesurau a gymerir i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen; a

- threfniadau cludiant i ddysgwyr i ysgolion/sefydliadau addysg eraill amgen.

**Nodwch:** Weithiau, bydd angen i gynnig gynnwys dwy elfen ar wahân, e.e., gallai ysgol gael ei throsglwyddo i safle newydd a chael ei hehangu hefyd. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd angen ymgorffori'r ddau gynnig yn yr un hysbysiad statudol.

Mae Atodiad B yn cynnwys sawl templed a argymhellir a all fod o ddefnydd i gynigwyr wrth iddynt lunio hysbysiad statudol.

# Adran 5. Penderfynu ar gynigion (ac eithrio cynigion a wneir gan Medr)

## Adroddiadau gwrthwynebu

5.1 O dan adran 49(3) o Ddeddf 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu"). **Rhaid** gwneud hyn:

- yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53 o Ddeddf 2013 (gweler paragraffau 5.24 i 5.27 isod), cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau â diwrnod ei benderfyniad;[81] ac
- ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[82]

5.2 **Rhaid** cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu drwy ei roi ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) ac ar wefan yr awdurdod lleol cynhaliol presennol/arfaethedig, os yw'n wahanol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais.

5.3 **Rhaid** anfon llythyr neu e-bost at y rhestr o'r rhai a hysbyswyd bod y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori ar gael ym mharagraff 3.15 yn eu hysbysu bod yr adroddiad gwrthwynebu ar gael.

5.4 Mewn cysylltiad â Gweinidogion Cymru, **rhaid** anfon negeseuon e-bost i flwch post canlynol Llywodraeth Cymru: SGOA@llyw.cymru. Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion Cymru yn unigol.

## Cymeradwyo gan Weinidogion Cymru (adran 50 o Ddeddf 2013)

5.5 Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynigion o dan adran 50(1) o Ddeddf 2013:

- os yw'r cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth, a bod gwrthwynebiad wedi'i wneud i'r cynigion yn unol ag adran 49(2) ac nad yw'r gwrthwynebiad wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu; neu
- os yw'r cynigion wedi cael eu gwneud gan gynigydd ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol ac os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud gan yr awdurdod hwnnw ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

[81] Deddf 2013, adran 49(3)(a).
[82] Deddf 2013, adran 49(3)(b).

5.6 Bydd cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth:

- os ydynt yn gynigion i sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i ofynion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn unig (ysgol chweched dosbarth); [83] neu
- os ydynt yn gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i ofynion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.[84]

5.7 Pan fydd yn ofynnol i gynnig gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, **rhaid** i'r cynigwyr hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn 35 o ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu a chyflwyno'r canlynol iddynt:

- yr adroddiad ymgynghori (a gyhoeddwyd o dan adran 48(5) o Ddeddf 2013);
- y cynigion cyhoeddedig;
- unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 49(2) o Ddeddf 2013 nas tynnwyd yn ôl;
- pan fydd gwrthwynebiadau wedi'u gwneud felly (a heb eu tynnu'n ôl) yr ymateb a gyhoeddwyd o dan adran 49(3) o Ddeddf 2013; a
- chopïau o'r gwrthwynebiadau statudol yn ogystal â'r adroddiad gwrthwynebu a nodir ym mharagraff 5.1.[85]

5.8 **Rhaid** i'r cynigydd hefyd anfon at Weinidogion Cymru unrhyw gynigion sydd, yn ei dyb ef, yn gysylltiedig â'r cynigion y mae angen gwneud penderfyniad arnynt.[86] Yna, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu a fydd angen iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynigion eraill hyn hefyd.

5.9 **Dylid** ystyried bod cynnig yn "gysylltiedig" pe bai ei weithredu (neu beidio â'i weithredu) yn atal neu'n tanseilio gweithredu cynnig arall yn effeithiol. Pan fydd cynigion yn gysylltiedig, **dylai'r** penderfyniadau fod yn gyson â'i gilydd.

5.10 Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a'r cyrff llywodraethu a'r awdurdod lleol perthnasol (os nad hwy yw'r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.[87]

---

[83] Penderfynodd y Llys Apêl yn R (oao Driver) v Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [2020] EWCA Civ 1759 mai dim ond os yw'r ysgol yn darparu addysg i'r rhai sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yn unig y mae cynnig i sefydlu neu gau ysgol yn dod o dan adran 50(2) o Ddeddf 2013 ac y mae'n ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

[84] Deddf 2013, adran 50(2).

[85] Deddf 2013, adran 51(3) a (4).

[86] Deddf 2013, adran 52(1).

[87] Deddf 2013, adran 50(5).

5.11 **Rhaid** mai dim ond newidiadau i niferoedd derbyn neu amseriad gweithredu'r cynnig y bydd addasiadau yn eu cynnwys. **Ni chaniateir** i Weinidogion Cymru wneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

5.12 Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir.[88]

**Rhaid** anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol yn Llywodraeth Cymru: SGOA@llyw.cymru. Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion Cymru yn unigol.

## Cymeradwyo gan yr awdurdod lleol (adran 51 o Ddeddf 2013)

5.13 Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 48 gael eu cymeradwyo o dan adran 51 o Ddeddf 2013:

- os nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;
- os ydynt wedi cael eu gwneud gan gynigydd heblaw'r awdurdod lleol perthnasol; ac
- os oes gwrthwynebiad wedi'i wneud i'r cynigion ac nad yw wedi'i dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[89]

### Gweithdrefnau

5.14 Os bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymeradwyo cynigion, **rhaid** i'r cynigydd hysbysu'r awdurdod lleol am gynnig y mae'n ofynnol ei gymeradwyo ac anfon y dogfennau a restrir isod ato o fewn 35 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu:

- copi o'r ddogfen ymgynghori;
- copi o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad;
- copi o'r hysbysiad cyhoeddedig;
- copi o'r adroddiad gwrthwynebu;
- copïau o'r gwrthwynebiadau statudol;[90] a
- chopïau o bob un o'r uchod mewn perthynas ag unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r cynigion y mae'n ofynnol eu cymeradwyo.[91]

5.15 **Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a yw unrhyw gynigion a anfonir atynt yn gysylltiedig ac a yw'n ofynnol iddynt eu cymeradwyo.[92] **Dylid** ystyried bod cynnig yn

---

[88] Deddf 2013, adran 50(6).
[89] Deddf 2013, adran 51(1).
[90] Deddf 2013, adran 51(2) a (3).
[91] Deddf 2013, adran 52(3).
[92] Deddf 2013, adran 52(4).

“gysylltiedig” pe bai ei weithredu (neu beidio â’i weithredu) yn atal neu’n tanseilio gweithredu cynnig arall yn effeithiol. Pan fydd cynigion yn gysylltiedig, **dylai’r** penderfyniad fod yn gyson â’i gilydd.

5.16 **Rhaid** i’r awdurdod lleol ymdrin â phob cynnig y mae’n ofynnol ei gymeradwyo yn ddi-oed, cyn belled â bod hynny’n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i’r materion.

5.17 Sut bynnag, **rhaid** i’r awdurdod lleol ddyroddi ei benderfyniad o fewn 16 o wythnosau sy’n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[93]

5.18 **Rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid cymeradwyo’r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.[94]

5.19 **Rhaid** mai dim ond newidiadau i niferoedd derbyn neu amseriad gweithredu’r cynnig y bydd addasiadau yn eu cynnwys.[95] **Ni chaniateir** i’r awdurdod lleol wneud addasiadau a fyddai, i bob diben, yn cyflwyno cynnig newydd yn lle’r cynnig a gyhoeddwyd.

5.20 Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i’r awdurdod lleol ymgynghori’n gyntaf â’r cynigydd a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â’r addasiad. **Rhaid** iddo hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.[96]

5.21 Os na ellir cael cydsyniad, ac os bydd yr awdurdod lleol o’r farn nad yw’r cynigion yn dderbyniol ar eu ffurf gyhoeddedig, **rhaid** iddo wrthod y cynigion.

5.22 **Rhaid** i’r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu’r ysgol sy’n destun y cynigion os nad y corff llywodraethu yw’r cynigydd.[97]

5.23 Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir.[98]

## Penderfynu gan gynigwyr (adran 53 o Ddeddf 2013)

5.24 Pan na fo’n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan adrannau 50 a 51 o Ddeddf 2013, y cynigydd fydd yn penderfynu arnynt.

5.25 O dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i’r cynigydd wneud penderfyniad o fewn 16 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Os bydd y cynigydd yn methu â phenderfynu ar y cynnig o fewn y cyfnod o 16 o wythnosau, ystyrir ei fod wedi tynnu’r cynnig yn ôl a bydd yn ofynnol iddo ailgyhoeddi’r cynigion os dymuna fwrw ymlaen â hwy.[99]

---

[93] Deddf 2013, adran 51(8).
[94] Deddf 2013, adran 51(4).
[95] Deddf 2013, adran 51(5).
[96] Deddf 2013, adran 51(4)(c)(i).
[97] Deddf 2013, adran 51(4)(c)(ii).
[98] Deddf 2013, adran 51(6).
[99] Deddf 2013, adran 53(2).

5.26 O dan adran 49(3) o Ddeddf 2013, pan fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). **Rhaid** gwneud hyn:

- yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53 o'r Ddeddf, cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n gwneud ei benderfyniad;[100]
- ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[101]

5.27 Os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law i gynigion awdurdod lleol, a bod penderfyniad yn ofynnol o dan adran 53 o Ddeddf 2013, **ni chaiff** yr awdurdod lleol fynd ati i benderfynu ar y cynigion hynny gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwybodol ochr yn ochr â'r dadleuon mewn cysylltiad â'r cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a amlinellir yn adran 1 o'r Cod.

## Gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol

5.28 Mae gweithrediaethau awdurdodau lleol yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys penderfyniadau i ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion a'u cyhoeddi.[102] Pan fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymeradwyo neu benderfynu ar gynigion y daeth gwrthwynebiad i law yn eu cylch, bydd Atodlen 2 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007[103] yn caniatáu i weithrediaeth yr awdurdod lleol i arfer y swyddogaethau hyn[104]. Bydd dealltwriaeth ddatblygedig y weithrediaeth o faterion trefniadaeth ysgolion, ynghyd â'u profiad mwy cyffredinol o wneud penderfyniadau a'r ffaith eu bod yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholaeth leol, yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion a heriwyd ai peidio.

5.29 Fodd bynnag, os byddant yn dewis gwneud hynny, gall awdurdodau lleol fabwysiadu prosesau amgen y cytunwyd arnynt yn lleol i wneud penderfyniadau o'r fath. Gallai'r rhain gynnwys creu pwyllgor penderfynu lleol, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill yn eu rhanbarth o bosibl. Mae Atodiad D yn darparu manylion model posibl ar gyfer pwyllgor penderfynu lleol.

5.30 Pan fydd awdurdodau lleol yn dewis dilyn y trywydd hwn, **dylent** ystyried yn ofalus sut y byddant yn sicrhau bod cyrff o'r fath yn gwneud penderfyniadau teg a chadarn.

---

[100] Deddf 2013, adran 49(3)(a).
[101] Deddf 2013, adran 49(3)(b).
[102] Deddf Llywodraeth Leol 2000, adran 13.
[103] Fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013.
[104] Deddf Llywodraeth Leol 2000, adran 13.

## Hysbysu am benderfyniad

5.31 **Rhaid** gwneud a dyroddi penderfyniadau (mewn perthynas â chynigion y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth neu benderfyniad ar eu cyfer) ar ffurf llythyr penderfyniad. **Rhaid** i'r llythyr penderfyniad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir, gan gyfeirio at baragraffau 1.5 i 1.23 o'r Cod sy'n gymwys i bob cynnig, a'r ffactorau penodol ym mharagraffau 1.24 i 1.55 (sy'n cynnwys y ffactorau ychwanegol i'w hystyried a'r gofynion mewn perthynas â chau ysgolion gwledig).

5.32 Yn ogystal, **rhaid** i lythyr penderfyniad ynghylch cynnig i derfynu ysgol a ddynodwyd yn ysgol wledig nodi pam mae'r cynigydd wedi'i fodloni mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd ganddo dros lunio'r cynnig.

5.33 **Rhaid** cyhoeddi llythyrau penderfyniad yn electronig ar wefan y cynigydd (os oes ganddo un) ac ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol).

5.34 **Rhaid** anfon llythyr neu e-bost at y rhestr o'r rhai a hysbyswyd bod y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ymgynghori a'r adroddiad gwrthwynebu ar gael ym mharagraff 3.15 yn eu hysbysu bod y llythyr penderfyniad ar gael.

## Atgyfeirio penderfyniadau awdurdodau lleol at Weinidogion Cymru

5.35 Os yw awdurdod lleol wedi—

- penderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion o dan adran 51(4), neu
- penderfynu o dan adran 53(1) i weithredu cynigion y gwnaed gwrthwynebiad iddynt yn unol ag adran 49 (ac nas tynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu);[105]

caiff y cyrff canlynol, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwrnod y penderfyniad, atgyfeirio'r cynigion at Weinidogion Cymru i'w hystyried:[106]

(a) awdurdod lleol arall (gan gynnwys awdurdod lleol yn Lloegr) y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arno;

(b) y corff crefyddol priodol ar gyfer:

i. yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol, neu y bwriedir iddi fod yn ysgol o'r fath; neu

ii. unrhyw ysgol arall sydd â chymeriad crefyddol ac y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arni;

(c) corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion;

---

[105] Deddf 2013, adran 54(1).
[106] Deddf 2013, adran 54(2).

(d) ymddiriedolaeth sy’n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy’n destun y cynigion; ac

(e) sefydliad addysg bellach y mae’n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno.

5.36 **Rhaid** anfon atgyfeiriadau drwy e-bost at Lywodraeth Cymru i’r blwch post SGOA@llyw.cymru. **Dylai’r** corff sy’n atgyfeirio’r penderfyniad hysbysu’r awdurdod lleol perthnasol bod cynnig wedi cael ei atgyfeirio.

5.37 **Rhaid** i’r corff sy’n atgyfeirio nodi mewn llythyr pam mae o’r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol yn anghywir.

5.38 **Rhaid** i Weinidogion Cymru benderfynu a fydd y cynigion yn debygol o effeithio ar y cyrff y cyfeirir atynt yn (a) i (e) uchod ac felly ei bod yn ofynnol i’r cynigion gael eu hystyried.[107]

5.39 Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried cynnig, **rhaid** i’r awdurdod lleol ddarparu iddynt, ar gais, gopïau o’r gwrthwynebiadau statudol, yr adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol.

5.40 Pan fydd yn ofynnol iddynt ystyried cynnig, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu eu cymeradwyo ag addasiadau.

5.41 **Rhaid** mai dim ond newidiadau i niferoedd derbyn neu amseriad gweithredu’r cynnig y bydd addasiadau yn eu cynnwys. **Ni chaniateir** i Weinidogion Cymru wneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle’r cynnig a gyhoeddwyd.

5.42 Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i Weinidogion Cymru ymgynghori’n gyntaf â’r cynigydd a’r cyrff llywodraethu a’r awdurdod lleol perthnasol (os nad hwy yw’r cynigwyr), a sicrhau bod y cynigydd yn cytuno â’r addasiad.

5.43 Gall cymeradwyaeth fod yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir.

5.44 Ni cheir atgyfeirio cynigion i derfynu ysgol fach[108] at Weinidogion Cymru.

[107] Deddf 2013, adran 54(3).
[108] O dan adran 54(5) o Ddeddf 2013, ni cheir atgyfeirio cynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy’n ysgol fach (gweler adran 56) at Weinidogion Cymru o dan yr adran hon. Mae adran 56(1) yn diffinio ysgol fach fel ysgol â llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud.

# Adran 6. Gweithredu cynigion

## Gweithredu – cyffredinol

6.1 Fel arfer, **rhaid** i gynigion gael eu gweithredu yn unol â'r hyn y penderfynwyd arno neu a gymeradwywyd (gyda neu heb addasiadau).[109]

6.2 **Dylai** cynigwyr hysbysu Gweinidogion Cymru drwy e-bost pan gaiff cynnig ei weithredu. **Rhaid** anfon negeseuon e-bost i'r blwch canlynol yn Llywodraeth Cymru: SGOA@llyw.cymru. Nid oes angen anfon negeseuon e-bost at Weinidogion Cymru yn unigol.

6.3 Fodd bynnag, os yw cynigydd wedi'i fodloni y byddai cynnig yn afresymol o anodd ei weithredu ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynnig gael ei gymeradwyo fel y byddai'n amhriodol ei weithredu ar y dyddiad gwreiddiol, caiff ohirio ei weithredu am gyfnod o hyd at 3 blynedd.[110]

6.4 Os bydd cynigydd wedi'i fodloni y byddai'n afresymol o anodd gweithredu'r cynigion neu fod yr amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo y byddai'n gwbl amhriodol eu gweithredu, caiff benderfynu y **dylid** rhoi'r gorau i'r cynigion.[111] Ystyrir ei bod yn arfer dda i'r cynigydd drafod hyn ymlaen llaw â chorff llywodraethu'r ysgol sy'n destun y cynigion.

6.5 Yn achos cynigion i gau ysgol, caiff cynigydd hefyd benderfynu dwyn dyddiad gweithredu'r cynigion yn ei flaen gan gyfnod o hyd at 13 o wythnosau.[112] Ystyrir ei bod yn arfer dda i'r cynigydd drafod hyn ymlaen llaw â chorff llywodraethu'r ysgol sy'n destun y cynigion.

6.6 Pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol o dan adran 51 o Ddeddf 2013 neu Weinidogion Cymru o dan adran 50 o Ddeddf 2013, **rhaid** mai dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y bydd cynigwyr yn penderfynu gohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu ymlaen neu roi'r gorau iddo.[113] Yn unol â'r Cod, **rhaid** i unrhyw gais o'r fath am gytundeb gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau'r cynigydd yn glir.

6.7 Pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu ynghylch cynnig o dan adran 53 o Ddeddf 2013, caiff yr awdurdod lleol ei hun benderfynu gohirio'r cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu ymlaen neu roi'r gorau iddo.

6.8 **Rhaid** i bartïon perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, yr awdurdod lleol cynhaliol a/neu gorff llywodraethu'r ysgol sy'n destun y cynnig gael eu hysbysu am unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu ymlaen neu roi'r gorau iddo, oni bai mai hwy yw'r cynigydd, cyn diwedd 7 niwrnod o wneud y penderfyniad[114]. **Dylid** hefyd hysbysu Medr (pan fo'r cynnig yn ymwneud â chweched dosbarth), Estyn, a chyrff llywodraethu, rhieni, dysgwyr a staff unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd

[109] Deddf 2013, adran 55(2).
[110] Deddf 2013, adran 55(3).
[111] Deddf 2013, adran 55(5).
[112] Deddf 2013, adran 55(4).
[113] Deddf 2013, adran 55(6).
[114] Deddf 2013 adran 55(7).

y penderfyniad yn effeithio arni fel y bo’n briodol. **Rhaid** i’r hysbysiad nodi’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn gryno.

6.9 Os bydd cynnig wedi cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir, ac nas bodlonir yr amod hwnnw erbyn y dyddiad hwnnw, **rhaid** i’r cynigion gael eu hystyried fel eu bod wedi’u gwrthod, oni bai bod y cynigydd wedi ceisio cytundeb Gweinidogion Cymru neu’r awdurdod lleol ac wedi cael y cytundeb hwnnw i ganiatáu i’r amod hwnnw gael ei amrywio drwy bennu dyddiad diweddarach.

# Adran 7. Cau ysgol â llai na 10 dysgwr cofrestredig

7.1 Pan fo gan ysgol lai na 10 dysgwr cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddysgwyr ar ôl mewn ysgol) ar adeg cynnal y cyfrifiad yn y mis Ionawr blaenorol, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Nid yw'r darpariaethau canlynol yn gymwys:

- y gofyniad i ymgynghori ar gynigion i gau'r ysgol;[115]
- y gofyniad i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru;[116]
- y gofyniad i gael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol;[117]
- atgyfeirio i Weinidogion Cymru;[118]
- y gofyniad i Medr ymgynghori ar gynigion a wneir ganddo;[119]
- y gofyniad i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.[120]

7.2 Unig elfen y weithdrefn symlach yw dyroddi'r hysbysiad statudol am gau ysgol.

7.3 Ym mhob achos, y cynigydd fydd yn penderfynu ar y cynigion. Er nad oes gofyniad yn Neddf 2013 i ymgynghori ar gynigion i gau ysgolion o'r fath, ystyrir ei bod yn arfer dda i'r cynigydd hysbysu unrhyw ymddiriedolaeth sydd â buddiant yn yr ysgol neu gorff crefyddol priodol o'i fwriad i gyflwyno cynigion o'r fath.

7.4 Yn achos ysgolion pan fo rhai dysgwyr ar ôl, **rhaid** i gynigwyr sicrhau y caiff yr hysbysiad statudol ei ddwyn i sylw'r dysgwyr hyn a'u rhieni, y caiff ei ystyr ei egluro i ddysgwyr, ac y caiff camau priodol eu cymryd i'w galluogi i wrthwynebu'r hysbysiad os dymunant wneud hynny. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu a **rhaid** i gynigwyr sicrhau yr ystyrir unrhyw farn a fynegir gan ddysgwyr a'u rhieni yn llawn cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

7.5 **Dylai** cynigwyr hefyd sicrhau bod rhieni dysgwyr ysgolion eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt yn cael copi o'r hysbysiad statudol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ysgolion amgen a nodwyd fel y rhai sydd fwyaf tebygol o dderbyn dysgwyr.

7.6 Nid yw bodolaeth gweithdrefnau symlach mewn perthynas â'r bwriad i gau ysgolion â llai na 10 dysgwr cofrestredig yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol gyflwyno cynigion i gau mewn perthynas ag ysgolion o'r fath.

7.7 **Dylid** ystyried unrhyw gynnig i gau ysgolion o'r fath yng ngoleuni'r ffactorau a nodir yn adran 1 o'r Cod. Os yw'r ysgol ar y rhestr o "ysgolion gwledig", mae hyn yn cynnwys ystyried y ffactorau a bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraffau 1.28 i 1.43 cyn dyroddi hysbysiad statudol am gau ysgol.

---

[115] Deddf 2013, adran 48(3).
[116] Deddf 2013, adran 50(9).
[117] Deddf 2013, adran 51(10).
[118] Deddf 2013, adran 54(5).
[119] Deddf 2013, adran 63D(3).
[120] Deddf 2013, adran 63F(8).

## Adran 8. Cynigion gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion

8.1 Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn flaenorol i gyflwyno cynigion i unioni darpariaeth ormodol neu annigonol o leoedd mewn ysgolion,[121] cânt gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r perwyl hwnnw[122].

8.2 Byddai'r meini prawf penodol y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i benderfynu dyroddi cyfarwyddyd neu wedyn gyhoeddi cynnig yn amrywio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn yr ardal dan sylw ond, yn gyffredinol, pwerau i'w defnyddio pan fetho popeth arall yw'r rhain. Gallai enghreifftiau o'r amgylchiadau lle y gallai Gweinidogion Cymru benderfynu dyroddi cyfarwyddyd gynnwys pan fo awdurdod lleol wedi methu â sicrhau:

- bod ei ardal yn cael ei gwasanaethu gan ysgolion sy'n ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i ddarparu cyfle i bob dysgwr gael addysg briodol; neu
- fod gan bob plentyn yn ei ardal fynediad rhesymol i un o'r ysgolion hynny; neu
- fod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol a bod adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl i blant a phobl ifanc.

8.3 **Rhaid** i'r cynigion gael eu cyhoeddi'n unol â'r darpariaethau a geir yn adran 4 o'r Cod.

8.4 Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynigion.[123] Os daw gwrthwynebiadau i law, ac oni bai bod pob gwrthwynebiad o'r fath yn cael ei dynnu'n ôl, **rhaid** i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol[124] gael ei gynnal i ystyried y cynigion.[125] **Rhaid** i unrhyw gynigion trefniadaeth ysgolion eraill a gyhoeddwyd ond na phenderfynwyd arnynt eto gael eu hatgyfeirio i'r ymchwiliad lleol os yw Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn gysylltiedig â'r cynnig sy'n cael ei wrthwynebu (ac oni bai bod Gweinidogion Cymru o'r farn y **dylid** eu gweithredu).[126]

8.5 Y cynigion sydd i'w hatgyfeirio[127] yw:

- unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 59 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl);
- unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid, neu derfynu ysgolion (ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl)
- unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl);

[121] Deddf 2013, adran 57(2).
[122] Deddf 2013, adran 59(2).
[123] Deddf 2013, adran 60.
[124] Mewn perthynas â chynnal ymchwiliad lleol gweler Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 250 sy'n gymwys yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.
[125] Deddf 2013, adran 61(2).
[126] Deddf 2013, adran 61(7).
[127] Deddf 2013, adran 61(6).

- unrhyw gynigion a wneir o dan adran 63C (ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl) pan fydd Medr wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn flaenorol i gyflwyno cynigion ac yna wedi cyhoeddi cynigion i'r un perwyl;
- unrhyw gynigion a wneir o dan adran 68 (ac nad ydynt yn cael eu tynnu'n ôl) pan fydd Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn flaenorol i gyflwyno cynigion ac yna wedi cyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r un perwyl.

8.6 **Rhaid** i'r ymchwiliad lleol gael ei gynnal gan berson a benodwyd i'r diben hwnnw gan Weinidogion Cymru ac yn unol ag unrhyw weithdrefnau a amlinellir gan y person a benodwyd ar adeg sefydlu'r ymchwiliad lleol.

8.7 Pan fo ymchwiliad lleol wedi cael ei gynnal, **rhaid** i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad lleol. Yna caiff Gweinidogion Cymru wneud un o'r canlynol:

- mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru, gyda neu heb addasiadau, neu benderfynu peidio â mabwysiadu unrhyw un o'r cynigion a wnaed gan Weinidogion Cymru;
- cymeradwyo unrhyw gynigion eraill a atgyfeiriwyd i'r ymchwiliad lleol, gyda neu heb addasiadau, neu eu gwrthod;
- gwneud cynigion pellach i resymoli lleoedd mewn ysgolion.[128]

8.8 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud cynigion pellach, nid oes gofyniad i beri cynnal ymchwiliad lleol arall.[129]

8.9 Pan na fydd y cynigion pellach hyn a wneir gan Weinidogion Cymru wedi cael eu hatgyfeirio i ymchwiliad lleol, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau:

- fabwysiadu'r cynnig gyda neu heb addasiadau; neu
- benderfynu peidio â mabwysiadu'r cynnig.[130]

8.10 **Rhaid** mai dim ond newidiadau i niferoedd derbyn neu amseriad gweithredu'r cynnig y bydd addasiadau yn eu cynnwys. **Ni chaniateir** i Weinidogion Cymru wneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

8.11 Gellir cymeradwyo cynigion neu eu mabwysiadu yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir.[131]

8.12 **Rhaid** i gynigion sy'n cael eu cymeradwyo neu eu mabwysiadu gael eu gweithredu yn unol ag adran 6 o'r Cod. **Rhaid** i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw dalu am gost gweithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo o dan adran 62 sy'n cael effaith fel pe baent wedi cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50

---

[128] Deddf 2013, adran 62(1).
[129] Deddf 2013, adran 62(2).
[130] Deddf 2013, adran 62(3).
[131] Deddf 2013, adran 62(4).

ar ôl iddynt gael eu gwneud gan y corff llywodraethu (yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol).[132]

[132] Deddf 2013, adran 63(2)

# Adran 9. Cynigion gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i ailstrwythuro darpariaeth chweched dosbarth

## Pwerau Medr i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud cynigion chweched dosbarth

9.1 Caiff Medr, yn unol â'r Cod, gyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau o dan Ddeddf 2013 i wneud cynigion i:

- sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol yn unig; neu
- wneud newid rheoleiddiedig (fel y'i diffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2013) i ysgol, ac effaith hynny fyddai bod y ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.[133]

9.2 Caiff Medr hefyd, yn unol â'r Cod, gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol, ac effaith hynny fyddai bod y ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.[134]

9.3 Wrth arfer ei bwerau i gyfarwyddo o dan adran 63A, **rhaid** i Medr ystyried y ffactorau a geir ym mharagraffau 1.5 i 1.23 sy'n gymwys i bob cynnig a pharagraff 1.45 o'r Cod sy'n gymwys i gynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth chweched dosbarth.

9.4 **Rhaid** i gyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd a'i gwneud yn ofynnol i'r cynigion gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y cyfarwyddyd.[135]

9.5 Ni cheir tynnu cynigion a wnaed yn unol â chyfarwyddyd yn ôl heb gydsyniad Medr a chaiff Medr roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau.[136]

9.6 **Rhaid** i awdurdod lleol ad-dalu costau y mae corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud neu weithredu cynigion yn unol â'r cyfarwyddyd.[137]

## Pwerau Medr i wneud cynigion

9.7 Caiff Medr wneud unrhyw gynnig a allai fod wedi'i wneud yn unol â chyfarwyddyd a roddir ganddo o dan adran 63A(1) o Ddeddf 2013, os oes cynigion wedi cael eu cyhoeddi neu os yw'r amser a ganiatawyd o dan y cyfarwyddyd wedi dod i ben.[138] Ond **rhaid** i Medr gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig i agor neu gau chweched dosbarth ysgol mewn ysgol wirfoddol neu sefydledig.[139]

9.8 Bydd cynigion yn ddarostyngedig i'r gofynion (yn adrannau 3 a 4 o'r Cod) mewn perthynas â chyhoeddi, ymgynghori, y gallu i wrthwynebu, a chymeradwyo, sy'n unol â'r

---

[133] Deddf 2013, adran 63A(1)(a).
[134] Deddf 2013, adran 63A(1)(b).
[135] Deddf 2013, adran 63A(2).
[136] Deddf 2013, adran 63B(1) a (2).
[137] Deddf 2013, adran 63B(3) a (4).
[138] Deddf 2013, adran 63C(1) a (2).
[139] Deddf 2013, adran 63C(3).

gofynion hynny ar gyfer cynigion a wneir gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sydd eisoes wedi'u nodi yn Neddf 2013.[140]

9.9 Cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y'u cyhoeddwyd, **rhaid** i Medr anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig at Weinidogion Cymru, yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol neu'r awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal yr ysgol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi a chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.[141]

**Gwrthwynebiadau a chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru**

9.10 Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.[142] **Rhaid** i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Medr cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion ("y cyfnod gwrthwynebu").[143] **Rhaid** i Medr gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 63(2) (ac nas tynnwyd yn ôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[144]

9.11 Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynigion a gyhoeddir gan Medr o dan adran 63D os oes gwrthwynebiad ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno, yn unol â'r gofyniad yn Neddf 2013, i'r cynigydd a heb ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu.[145]

9.12 Pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynnig, **rhaid** i Medr hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn 35 o ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu ac anfon atynt yr adroddiad ymgynghori, y cynigion cyhoeddedig, copïau o unrhyw wrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd, ynghyd â'r adroddiad gwrthwynebu fel y'i nodir ym mharagraff 9.10[146]

9.13 Caiff Gweinidogion Cymru wrthod y cynigion, eu cymeradwyo heb addasiad, neu eu cymeradwyo ag addasiadau ar ôl cael cydsyniad Medr i'r addasiadau, ac ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu'r awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi a chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.[147]

9.14 Caniateir i gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir y bydd y gymeradwyaeth yn dod yn weithredol.[148] **Rhaid** i gynigion sy'n cael eu mabwysiadu gael eu gweithredu yn unol ag adran 6 o'r Cod.

9.15 Nid oes cymeradwyaeth yn ofynnol o dan yr adran hon ar gyfer cynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach o fewn yr ystyr a roddir yn adran 56.[149]

---

[140] Deddf 2013, adran 63D(1) a (2).
[141] Deddf 2013, adran 63D(4).
[142] Deddf 2013, adran 63E(1).
[143] Deddf 2013, adran 63E(2).
[144] Deddf 2013, adran 63E(3).
[145] Deddf 2013, adran 63F(1).
[146] Deddf 2013, adran 63E(3).
[147] Deddf 2013, adran 63F(4).
[148] Deddf 2013, adran 63F(5).
[149] Deddf 2013, adran 63F(8).

9.16 Pan na fydd cynigion a gyhoeddir gan Medr o dan baragraff 9.7 yn gofyn am gymeradwyaeth o dan baragraff 9.12, **rhaid** i Medr benderfynu a ddylid eu gweithredu.[150] Os na wneir penderfyniad cyn diwedd 16 o wythnosau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu, tybir bod Medr wedi tynnu'r cynigion yn ôl.[151]

9.17 Cyn diwedd 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaeth ei benderfyniad, **rhaid** i Medr hysbysu'r canlynol am ei benderfyniad:

- Gweinidogion Cymru;
- yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu'r awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;
- corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.[152]

9.18 Mae cynigion a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 9.12 neu gynigion y mae Medr yn penderfynu y byddant yn cael eu gweithredu o dan baragraff 9.17 yn cael effaith fel pe baent wedi cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl cael eu gwneud:

- gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion; neu
- yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.[153]

[150] Deddf 2013, adran 63G(1).
[151] Deddf 2013, adran 63G(2).
[152] Deddf 2013, adran 63G(3).
[153] Deddf 2013, adran 63H(1).

## Adran 10. Cynigion gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darpariaeth ranbarthol ar gyfer ADY

10.1 Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cyfarwyddyd yn flaenorol o dan adran 66 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu gyflwyno cynigion trefniadaeth ysgolion at ddiben sicrhau darpariaeth ranbarthol i blant ag ADY, cânt gyhoeddi eu cynigion eu hunain i'r un perwyl.[154]

10.2 **Rhaid** ymgynghori ar y cynigion yn unol ag adran 3 a'u cyhoeddi yn unol ag adran 4 o'r Cod.[155]

10.3 Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn diwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynigion.[156]

10.4 Ar ôl ystyried unrhyw wrthwynebiadau, caiff Gweinidogion Cymru:

- fabwysiadu'r cynigion gyda neu heb addasiadau;
- penderfynu peidio â mabwysiadu'r cynigion.[157]

10.5 **Rhaid** mai dim ond newidiadau i niferoedd derbyn neu amseriad gweithredu'r cynnig y bydd addasiadau yn eu cynnwys. **Ni chaniateir** i Weinidogion Cymru wneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd.

10.6 Gellir mabwysiadu cynigion yn amodol ar ddigwyddiad a bennir yn digwydd erbyn dyddiad a bennir.[158]

10.7 **Rhaid** i gynigion sy'n cael eu mabwysiadu gael eu gweithredu yn unol ag adran 6 o'r Cod.

---

[154] Deddf 2013, adran 68(2).
[155] Deddf 2013, adran 68(3).
[156] Deddf 2013, adran 69.
[157] Deddf 2013, adran 70(1).
[158] Deddf 2013, adran 70(2).

## Adran 11. Hysbysiad corff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu wirfoddol

11.1 Mae adran 80 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol derfynu'r ysgol trwy roi 2 flynedd o rybudd i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o'i fwriad i wneud hynny.[159] Cyn rhoi'r hysbysiad, **rhaid** i'r corff llywodraethu:

- gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wedi mynd i wariant ar safle'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad â gwaith atgyweirio);[160]
- ymgynghori â Medr pe bai terfynu'r ysgol yn effeithio ar gyfleusterau ar gyfer addysg amser llawn sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cael eu pen-blwydd yn 19 oed;[161] ac
- ymgynghori â'r ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw dir neu adeiladau a ddelir ar ymddiriedolaeth a/neu gorff crefyddol priodol os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol dynodedig a rhoi sylw i unrhyw sylwadau sy'n dod i law (nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori ar gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach).

11.2 Ni chaniateir i hysbysiad a ddyroddir o dan adran 80(1) gael ei dynnu'n ôl heb gydsyniad yr awdurdod lleol.[162] Os bydd y corff llywodraethu, yn ystod cyfnod yr hysbysiad, yn hysbysu'r awdurdod lleol nad yw'n gallu neu nad yw'n barod i barhau i redeg yr ysgol nes bod yr hysbysiad yn dod i ben, caiff yr awdurdod lleol redeg yr ysgol fel pe bai'n ysgol gymunedol tan ddiwedd cyfnod yr hysbysiad a defnyddio safle'r ysgol am ddim at y diben hwnnw.[163]

11.3 Yn ystod y cyfnod hwn, **rhaid** i'r awdurdod lleol gadw safle'r ysgol mewn cyflwr da a bydd unrhyw fuddiant yn y safle a ddelir at ddibenion yr ysgol yn cael ei drin, at bob diben yn ymwneud â chyflwr y safle, ei meddiannu neu ei defnyddio, neu wneud newidiadau iddi, fel pe bai wedi'i freinio yn yr awdurdod lleol.[164]

11.4 Yn ystod y cyfnod hwn, caiff y corff llywodraethu ddefnyddio'r safle, neu unrhyw ran ohoni, nad oes ei hangen ar y pryd at ddibenion yr ysgol i'r un graddau â phe bai wedi parhau i redeg yr ysgol yn ystod cyfnod yr hysbysiad nad oedd wedi dod i ben.[165] Os bydd ysgol sefydledig neu wirfoddol yn cael ei therfynu o dan adran 80 o Ddeddf 2013, mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal yr ysgol yn dod i ben.[166]

11.5 Pan fydd angen cyngor ar gyrff llywodraethu mewn perthynas ag eiddo a ddelir ar ymddiriedolaeth elusennol, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Comisiwn Elusennau ar gam cynnar.

11.6 Mae adran 80 o Ddeddf 2013 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch ymddiriedolwyr sy'n dal tir ar ymddiriedolaeth at ddibenion yr ysgol yn rhoi hysbysiad i roi terfyn ar y

---

159 Deddf 2013, adran 80(1).
160 Deddf 2013, adran 80(2).
161 Deddf 2013, adran 80(3).
162 Deddf 2013, adran 80(7).
163 Deddf 2013, adran 80(4).
164 Deddf 2013, adran 80(5).
165 Deddf 2013, adran 80(6).
166 Deddf 2013, adran 80(8).

feddiannaeth o'r tir hwnnw. Mewn achosion pan fo'r canlynol yn gymwys, **rhaid** i'r hysbysiad a roddir gan yr ymddiriedolwyr i gorff llywodraethu'r ysgol gael ei roi o leiaf 2 flynedd o flaen llaw:[167]

- mae tir sydd wedi ei feddiannu gan yr ysgol yn cael ei ddal gan unrhyw ymddiriedolwyr at ddiben yr ysgol;
- mae'r ymddiriedolwyr (sydd â hawl i wneud hynny) yn bwriadu rhoi hysbysiad i gorff llywodraethu'r ysgol i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw; a
- byddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw yn golygu nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safle presennol.

11.7 **Rhaid** rhoi copi o hysbysiad yr ymddiriedolwyr i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol ar yr un pryd.[168]

11.8 Pan fo'r corff llywodraethu yn rhoi hysbysiad ei fod yn terfynu'r ysgol yn unol â pharagraff 11.1 uchod yn ystod y 12 mis cyntaf o gyfnod hysbysiad yr ymddiriedolwyr, nid yw hysbysiad yr ymddiriedolwyr yn cael yr effaith o derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir nes bod hysbysiad y corff llywodraethu wedi dod i ben.[169]

11.9 Pan fydd ymddiriedolwyr yn rhoi hysbysiad ar yr un pryd (neu tua'r un pryd) i derfynu meddiannaeth ysgol sefydledig neu wirfoddol ar ddau ddarn o dir neu fwy a ddelir gan yr ymddiriedolwyr, gellir rhoi sylw i effaith gyfunol terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y ddau ddarn o dir neu bob darn o dir wrth benderfynu a fyddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir yn golygu nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safleoedd presennol.[170]

11.10 Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch a yw paragraff 11.9 yn gymwys ac a fyddai'n cael y canlyniad a grybwyllir o dan unrhyw amgylchiadau penodol, mae i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.[171]

---

[167] Deddf 2013, adran 80(10) ac (11).
[168] Deddf 2013, adran 80(12).
[169] Deddf 2013, adran 80(11).
[170] Deddf 2013, adran 80(13).
[171] Deddf 2013, adran 80(14).

# Atodiad A: Siart llif enghreifftiol ar gyfer cynigion statudol

| Cam 1 |
| --- |
| **Rhaid** i'r cynigydd gyfeirio at y rhestr o ysgolion gwledig i ganfod a yw cynnig i gau ysgol yn cynnwys ysgol wledig ac a yw'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn gymwys. |

| Cam 2 |
| --- |
| **Dylai'r** cynigydd gyfeirio at adran 1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod) sy'n nodi'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar bob cynnig trefniadaeth ysgolion. |

| Cam 3 |
| --- |
| Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae eu tir a/neu eu hadeiladau yn cael eu dal ar ymddiriedolaeth, neu sydd â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** i'r cynigydd ymgynghori â'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi a chaniatáu 28 diwrnod i sylwadau ddod i law, a **rhaid** iddo roi sylw dyladwy i'r sylwadau hynny cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i fynd ati i gynnal ymgynghoriad cyffredinol. |

| Cam 4 |
| --- |
| **Dylid** cael cymeradwyaeth i fynd ati i ymgynghori'n ffurfiol. Os mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet sy'n gwneud y penderfyniad fel arfer. Os mai corff llywodraethu ysgol yw'r cynigydd, **rhaid** i'r corff llywodraethu wneud y penderfyniad. |

| Cam 5 |
| --- |
| **Rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ei wefan a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol, os yw'n wahanol, a sicrhau ei bod ar gael ar ffurf copi caled. **Rhaid** i asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer pob cynnig. **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a **rhaid** i ymgyngoreion gael o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymateb gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae adran 3 o'r Cod yn nodi'r wybodaeth y mae'n **rhaid** i bob dogfen ymgynghori ei chynnwys, gan gynnwys yr wybodaeth ychwanegol ynghylch cynigion i gau ysgolion gwledig, ac mae'n darparu rhestr o'r partïon hynny y mae'n **rhaid** eu hysbysu ei bod ar gael. **Rhaid** i'r cynigydd wneud trefniadau addas i ymgynghori â dysgwyr unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni. |

| Cam 6 |
| --- |
| O fewn 13 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad (a chyn cyhoeddi cynigion sut bynnag), **rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o sylwadau'r ymgyngoreion ac ymatebion y cynigydd ei hun i'r sylwadau (yr adroddiad ymgynghori). Mae adran 3 o'r Cod yn darparu gwybodaeth am yr adroddiad ymgynghori ac yn rhestru'r partïon y mae'n **rhaid** eu hysbysu ei fod ar gael. |

| Cam 7 |
| --- |
| Os mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, fel arfer bydd y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet yn cyfarfod i ystyried yr ymgynghoriad ac a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os mai corff llywodraethu ysgol yw'r cynigydd, **dylai** gyfarfod i ystyried yr ymgynghoriad a phenderfynu a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, cymerir Cam 8. Os daw opsiwn newydd i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad y mae'r cynigwyr yn dymuno ei ystyried, yna ailadroddir Camau 1 i 5. |

| Cam 8 |
| --- |
| **Rhaid** cyhoeddi cynigion o fewn 26 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod ymgynghori a ganiateir ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad. Fel arall, bydd y cynnig yn mynd yn ddi-rym, a bydd ymgynghoriad newydd yn ofynnol.<br>Os bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, **rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi hysbysiad statudol sy'n darparu cyfnod hysbysu o 28 o ddiwrnodau i gyflwyno gwrthwynebiadau. **Rhaid** cyhoeddi'r hysbysiad ar ddiwrnod ysgol, gyda 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) o fewn cyfnod yr hysbysiad. Mae adran 4 o'r Cod yn nodi'r wybodaeth y mae'n **rhaid** i hysbysiad ei chynnwys ac yn esbonio sut mae'n **rhaid** ei gyhoeddi. |

| Cam 9a | Cam 9b |
| --- | --- |
| Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau ac nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynnig:<br>- Os mai'r awdurdod lleol yw'r cynigydd, fel arfer bydd y pwyllgor gweithredol neu'r cabinet yn cyfarfod i benderfynu a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.<br>- Os mai corff llywodraethu'r ysgol yw'r cynigydd, bydd y corff llywodraethu yn cyfarfod i benderfynu a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. | Os daw gwrthwynebiadau i law, **rhaid** i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny (yr adroddiad gwrthwynebu). |

| Cam 10a | Cam 10b | Cam 10c |
| --- | --- | --- |
| Os nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru na'r awdurdod lleol gymeradwyo'r cynnig, **rhaid** i'r cynigwyr wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig o fewn 16 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod | Os yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon yr adroddiad ymgynghori, yr hysbysiad a gyhoeddwyd, unrhyw wrthwynebiadau a | Os yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu ar y cynnig, **rhaid** i'r cynigydd anfon y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ymgynghori, yr hysbysiad a gyhoeddwyd, unrhyw wrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu at yr awdurdod lleol o fewn 35 o |

| | | |
|---|---|---|
| gwrthwynebu. | wnaed a'r adroddiad gwrthwynebu at Weinidogion Cymru o fewn 35 o ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>Fel arfer, bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio penderfynu ar gynigion o fewn 16 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. | ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br>**Rhaid** i'r awdurdod lleol ddyroddi penderfyniad o fewn 16 o wythnosau i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.<br><br>O fewn 28 o ddiwrnodau i benderfyniad yr awdurdod lleol, caiff cynigion y cyflwynwyd gwrthwynebiadau yn eu cylch gael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru gan y canlynol:<br><br>i. Awdurdod lleol arall;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni (yr awdurdod esgobaethol);<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion;<br>v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno. |

| Cam 11 |
|---|
| Os caiff y cynigion eu cymeradwyo neu os bydd y cynigydd yn penderfynu eu gweithredu, **dylent** gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad a roddwyd yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedi hynny. |

# Atodiad B: Enghreifftiau o hysbysiadau statudol

## Enghraifft o hysbysiad statudol i sefydlu ysgol gymunedol neu wirfoddol newydd

[Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion].

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig sefydlu ysgol [*nodwch y categori iaith*[172]] newydd i'w chynnal gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] yn [*nodwch y lleoliad a, lle y bo'n briodol, y cyfeiriad post*] ar gyfer [*bechgyn*]/ [*merched*] /[*bechgyn a merched*] [*nodwch yr ystod oedran*] oed.

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd (os oes ganddo un) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol)*].

Cynigir y bydd y cynnig yn cael ei weithredu ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Os bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam,* ***dylid*** *rhoi dyddiad gweithredu arfaethedig pob cam*].

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol [*nodwch ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir*].

[*Nodwch y corff llywodraethu neu enw'r awdurdod lleol]* fydd yr awdurdod derbyn.

Y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[173]] yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi cael eu gweithredu fydd [*nodwch rif*]. [*Os bwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam,* ***rhaid*** *rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu*]. [*Os bydd nifer derbyn ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth,* ***dylid*** *cynnwys y nifer hwnnw].*

Capasiti dysgwyr yr ysgol newydd fydd [*nodwch ffigur capasiti*[174]]. [*Byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnwys nifer y lleoedd meithrin a ddarperir os yw'n briodol*].

[*Ar gyfer ysgol arbennig, gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol y dysgwyr y gwneir darpariaeth ar eu cyfer*].

[*Rhowch wybodaeth ynghylch a gynigir y bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer bandio dysgwyr*].

[*Yn achos ysgol wirfoddol newydd, rhowch wybodaeth am ei chymeriad crefyddol a'i chorff crefyddol priodol arfaethedig os bydd ganddi gymeriad crefyddol*].

---

172 **Dylai** cynigwyr gyfeirio at ddogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*.

173 Diffinnir "relevant age Group" ("grŵp oedran perthnasol") yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw **rhaid** rhoi'r nifer sydd i'w derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.

174 **Dylai** cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 21/2011 *Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru* neu unrhyw ddogfen olynol.

[*Rhowch wybodaeth am y trefniadau arfaethedig i gludo dysgwyr i'r ysgol newydd*].

[*Yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd, nodwch ai'r awdurdod lleol neu'r hyrwyddwyr fydd yn gweithredu'r cynigion, ac, os bwriedir i'r ddau gorff weithredu'r cynigion, y graddau y bydd y naill gorff a'r llall yn eu gweithredu*].

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

**Dylid** anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol*].

Dyddiad [***dylid** nodi'r un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

**Enghraifft o hysbysiad statudol i derfynu ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

[*Nodwch enw a chyfeiriad y rhai sy'n cyhoeddi'r cynigion*].

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig terfynu [*enw a chyfeiriad yr ysgol*]. Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan [*nodwch enw'r awdurdod lleol cynhaliol*] [*ac os yw'n berthnasol, nodwch gymeriad crefyddol yr ysgol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd (os oes ganddo un) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol*)].

Cynigir y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ar [*nodwch y dyddiad*].

[*Nodwch fanylion yr ysgolion amgen y gall dysgwyr yn yr ysgol i'w therfynu eu mynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau dros dro a chategori iaith yr ysgolion amgen fel y'u diffinnir yn y Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg*].

[*Nodwch fanylion unrhyw fesurau eraill y cynigir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion o ganlyniad i'r cynnig i derfynu'r ysgol*].

[*Nodwch fanylion y trefniadau arfaethedig ar gyfer cludo dysgwyr i ysgolion neu sefydliadau addysg eraill amgen*].

[*Pan fydd y cynnig yn ymwneud â chau ysgol ar y rhestr o ysgolion gwledig, nodwch y rhesymau pam mae'r cynigydd wedi'i fodloni mai gweithredu cynnig o'r fath yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd gan y cynigydd wrth lunio'r cynnig*].

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*].

Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …...........................................

Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*].

Dyddiad [***dylid** nodi'r un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*].

**NODYN ESBONIADOL**

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy'n esbonio'r cynigion mewn iaith syml ac sy'n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i'r cynigion*].

**Enghraifft o hysbysiad statudol i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod [*enw'r cynigydd*], ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid [*enw a chyfeiriad yr ysgol*] fel ei bod [*ychwanegu disgrifiad o'r newid/newidiadau arfaethedig*]. Cynhelir yr ysgol/ysgolion ar hyn o bryd gan [*enw'r awdurdod lleol cynhaliol*].

Cynhaliodd [*nodwch enw'r cynigydd*] gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar [*nodwch wefan y cynigydd (os oes ganddo un) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol)*].

Cynigir y bydd y cynnig yn cael ei weithredu ar [*nodwch y dyddiad*]. [*Os bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam, **dylid** rhoi dyddiad gweithredu arfaethedig pob cam.*]

[*Pan fydd y newid yn cynnwys ehangu, neu leihau capasiti, nodwch*] Nifer y dysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd yw [*nodwch nifer*], capasiti dysgwyr yr ysgol ar hyn o bryd yw [*nodwch gapasiti lleoedd i ddysgwyr*[175]] a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd [*nodwch y capasiti arfaethedig*]. Y nifer derbyn ar gyfer [*nodwch y grŵp oedran neu'r grwpiau oedran perthnasol*[176]] yn yr ysgol yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu fydd [*nodwch y nifer*] [*rhowch nifer ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth os yw'n briodol*]. [*Pan fwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, **rhaid** rhoi'r nifer derbyn yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'i weithredu].* [*os yw'n briodol*] Bydd [*rhowch y nifer*] o leoedd meithrin.

[*Pan fydd y newid yn ymwneud â chau chweched dosbarth ysgol rhowch wybodaeth am yr ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen y cynigir y bydd dysgwyr yn trosglwyddo iddynt, gan gynnwys unrhyw drefniadau dros dro a'r effaith ar gludiant*].

[*Pan fydd y newid yn golygu newid y math o ddarpariaeth, rhowch wybodaeth am y ddarpariaeth amgen i'r dysgwyr a'r effaith ar gludiant i'r ysgol].*

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn [*nodwch ddyddiad*]. Dylid anfon gwrthwynebiadau at [*enw a chyfeiriad y cynigydd*].

Llofnodwyd …............................................  Ar ran [*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu*].

Dyddiad [***dylid** nodi'r un dyddiad â'r dyddiad cyhoeddi*]

**NODYN ESBONIADOL**

---

[175] **Dylai'r** cynigwyr gyfeirio at Gylchlythyr 21/2011 Llywodraeth Cymru *Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru* neu unrhyw ddogfen olynol.

[176] Diffinnir "relevant age Group" ("grŵp oedran perthnasol") yn adran 142(1) o Ddeddf 1998 fel a ganlyn: "an age group in which pupils are normally admitted (or, as the case may be, will normally be admitted) to the school". Felly, gellid bod mwy nag un grŵp oedran perthnasol, ac yn yr achos hwnnw **rhaid** rhoi'r nifer sydd i'w derbyn mewn perthynas â phob grŵp oedran perthnasol o'r fath.

[*Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys Nodyn Esboniadol sy’n esbonio’r cynigion mewn iaith syml ac sy’n rhoi rhagor o wybodaeth a chefndir i’r cynigion*].

# Atodiad C: Asesiadau o’r effaith ar y Gymraeg a’r gymuned

**Rhaid** cynnwys asesiadau effaith yn y ddogfen ymgynghori neu eu cyhoeddi ochr yn ochr â hi er mwyn llywio’r broses ymgynghori. **Rhaid** iddynt gynnwys digon o wybodaeth i ategu’r cynigion a thystiolaeth o ffactorau lliniaru os oes unrhyw effeithiau negyddol o bosibl wedi cael eu nodi. Mae ymgysylltu a chyfathrebu â’r gymuned leol a phob un o’r ymgyngoreion yn gynnar yn y broses yn ffordd effeithiol o ganfod a deall yr holl ffactorau perthnasol.

### Asesiad o’r effaith ar y Gymraeg

**Rhaid** cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob cynnig, ni waeth beth fo categori iaith yr ysgolion sy’n destun y cynigion. **Rhaid** iddo gynnwys tystiolaeth berthnasol a’r ffactorau lliniaru isod fel gofyniad sylfaenol:

- cysylltiadau â’r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac unrhyw gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i’r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â’r cynllun neu gyflawni targedau yn y cynllun;
- cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg o ran Llunio Polisi (os ydynt yn gymwys) ac yn gyffredinol â Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau yr Awdurdod Lleol perthnasol;
- dalgylchoedd lleol (ni waeth beth fo’r ddarpariaeth iaith) a materion o ran pellteroedd teithio;
- cynllun datblygu’r awdurdod cynllunio lleol perthnasol o ran Nodyn Cyngor Technegol (TAN 20)[177] a sylw dyladwy ac ystyriaeth o Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol;
- cysylltiadau â Strategaeth Hybu’r Gymraeg 5 mlynedd yr awdurdod lleol perthnasol;
- cysylltiadau â nodau Cymraeg 2050;
- cysylltiadau cyffredinol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015;
- ystyriaethau economaidd-gymdeithasol (cymharu data ward/Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar amddifadedd â data ar siaradwyr Cymraeg);
- ffactorau lliniaru (gan gynnwys materion trawsffiniol a rhanbarthol).

**Dylai’r** asesiad hefyd gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol sy’n destun y cynigion;
- yn achos cau ysgol, cyfyngu ar ddarpariaeth neu gau chweched dosbarth ysgol, gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall amgen y gall y dysgwyr ei mynychu neu ei fynychu;
- asesiad o’r effeithiau tebygol ar unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni neu arno, ni waeth beth fo categori’r ysgol na chyfrwng y ddarpariaeth;
- gwybodaeth am safonau yn y Gymraeg yn yr ysgolion sy’n destun y cynnig ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall amgen y gall y dysgwyr ei mynychu neu ei fynychu;

[177] TAN20: Cynllunio a’r Gymraeg (llyw.cymru)

- gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall amgen y gall y dysgwyr ei mynychu neu ei fynychu (e.e., yr Urdd, clybiau Mentrau Iaith);
- gwybodaeth am gyfleusterau i aelodau'r gymuned i ddysgu Cymraeg, neu ymgymryd â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion os cânt eu darparu a ble y gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen;
- a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i sicrhau ymhellach safonau yn y Gymraeg;
- sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu ag unrhyw ysgol neu sefydliad addysg arall amgen ac unrhyw ddarpariaeth gwella iaith benodol y mae'n ei chynnig (e.e., sut y cynorthwyir dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, Mentrau Iaith);
- sylwadau gan fforwm addysg Gymraeg yr awdurdod lleol.[178]

**Asesiad effaith ar y gymuned**

**Rhaid** cynnal asesiad effaith ar y gymuned ar gyfer unrhyw gynnig i gau ysgol. Mae'r wybodaeth y **dylid** ei chynnwys mewn asesiad effaith ar y gymuned yn cynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am y gyfran o ddysgwyr o'r tu mewn i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am y gyfran o ddysgwyr o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;
- gwybodaeth am y gyfran o ddysgwyr sydd o fewn y trothwyon ar gyfer darpariaeth cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd (2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd) sy'n mynychu'r ysgol a sut y bydd y cynnig yn effeithio arnynt;
- gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith (ar gyfer pob dull teithio);
- effaith ar iechyd a llesiant e.e., pe bai'n fwy anodd i ddysgwyr gerdded neu feicio i'r ysgol;
- gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;
- gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach;
- gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn rhoi lle iddynt neu'n eu darparu e.e., clybiau ysgol, clwb ieuenctid, llyfrgell gymunedol, cylch chwarae;
- gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen y gall y dysgwyr ei mynychu;
- sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgolion neu'r sefydliadau addysg eraill amgen ac unrhyw gyfleusterau a gynigir ganddynt e.e., sut y caiff dysgwyr (yn enwedig unrhyw ddysgwyr llai breintiedig) eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);

---

[178] Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn rhoi diffiniad o fforwm addysg Gymraeg. Fodd bynnag, **dylid** nodi nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal fforwm o'r fath.

- a yw’r ysgol yn wir ganolbwynt bywyd y gymuned ai peidio, a ddefnyddir at ddibenion eraill – megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd a digwyddiadau cymdeithasol eraill – a fyddai naill ai’n dod i ben neu’n dioddef o gael eu symud i rywle arall;
- a fydd colli’r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned ai peidio;
- effaith gyffredinol cau’r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau’r ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol);
- pa effaith y gallai cau’r ysgol ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai’r ysgol yw’r unig adeilad cyhoeddus sydd ar ôl yn y gymuned;
- a fyddai cau’r ysgol yn peri i deuluoedd â phlant o oedran ysgol adael y gymuned neu’n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned;
- os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau;
- a gaiff cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu’r gymuned ehangach eu gwella neu a ellid eu gwella pe câi’r ysgol ei chau (e.e., gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau).

## Atodiad D: Pwyllgor penderfynu lleol

Mae'r model a amlinellir isod yn un ffordd bosibl o sefydlu pwyllgor penderfynu lleol.

Byddai maint y pwyllgor yn dylanwadu'n arwyddocaol ar ei effeithiolrwydd. Pe bai'n rhy fawr, byddai'n drwsgl a byddai'n anodd cael consensws. Pe bai'n rhy fach, efallai na fyddai digon o ddadlau a gallai'r safbwynt fod yn rhy gul. Efallai mai pwyllgor â phum aelod fyddai'r maint delfrydol.

Bydd cyfansoddiad y pwyllgor hefyd yn bwysig ac yn dylanwadu ar ganfyddiad pobl ohono. Os mai'r bwriad yw pwysleisio ei annibyniaeth ar weithrediaeth yr awdurdod lleol, efallai y bydd angen "anghymhwyso" aelodau'r weithrediaeth ac unrhyw un sydd â chysylltiad â'r awdurdod lleol, y cynigydd (os yw'n wahanol i'r awdurdod lleol) neu'r ysgol/ysgolion sy'n destun y cynigion, a allai godi amheuon ynglŷn â'u gallu i weithredu'n ddiduedd mewn perthynas â'r cynnig.

Ar yr amod nad ydynt wedi'u hanghymhwyso, gallai awdurdodau lleol benderfynu penodi pwyllgorau sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol yn unig, neu bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol (gan gynnwys aelodau awdurdod lleol arall), neu unrhyw gyfuniad o'r ddau.

Pan fo ysgol â chymeriad crefyddol dynodedig fel un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig (neu y bwriedir iddi fod â chymeriad crefyddol o'r fath) yn destun cynnig, gallai'r awdurdod lleol wahodd Bwrdd Addysg Esgobaethol esgobaeth berthnasol yr Eglwys yng Nghymru neu Esgob esgobaeth berthnasol yr Eglwys Gatholig Rufeinig i enwebu cynrychiolydd i fod yn un o aelodau'r pwyllgor. Yn achos unrhyw ysgol wirfoddol arall â chymeriad crefyddol dynodedig, gallai'r person neu'r personau sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig gael gwahoddiad i enwebu cynrychiolydd.

Efallai y bydd awdurdodau lleol am sicrhau bod gan o leiaf un aelod o'r pwyllgor brofiad uniongyrchol o weithio yn y sector addysg. Gallai aelod neu gyn-aelod o uwch dîm reoli ysgol neu lywodraethwr ysgol profiadol fod yn addas yn hyn o beth.

Os bydd y pwyllgor yn cynnwys aelodau'r awdurdod lleol yn unig, efallai yr hoffai'r awdurdod lleol ystyried ei wneud yn wleidyddol gytbwys yn yr ystyr a amlinellir yn adrannau 15 a 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Efallai y bydd yr awdurdod lleol am recriwtio, hyfforddi a chadw cronfa o unigolion cymwys a phenodi i bwyllgor yn ôl yr angen. Byddai nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys lleihau'r amser sydd ei angen i sefydlu pwyllgor pan fo angen un a byddai'n helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod darpar aelodau'r pwyllgor wedi cael hyfforddiant digonol.

Gallai awdurdodau lleol gydweithredu hefyd i ddatblygu cronfeydd rhanbarthol. Byddai hyn yn cynyddu nifer y darpar ymgeiswyr cymwys â phrofiad addas ac ar yr un pryd yn rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau'r pwyllgor ennill profiad a datblygu arbenigedd wrth wneud penderfyniadau am drefniadaeth ysgolion. Fodd bynnag, wrth benodi paneli o unrhyw gronfa ranbarthol o'r fath, efallai yr hoffai awdurdodau lleol sicrhau bod gan rai aelodau o leiaf wybodaeth leol benodol.

Byddai'r awdurdod lleol am sicrhau bod holl aelodau'r pwyllgor yn cael hyfforddiant priodol cyn ystyried unrhyw gynigion a bod aelodau profiadol o'r pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau ac yn cael cyfle i ddiweddaru eu

hyfforddiant. Nid oes angen i’r hyfforddiant fod yn eang ond gallai geisio sicrhau bod aelodau’r pwyllgor yn gyfarwydd â’r canllawiau yn y Cod a’r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013. Gallai dau awdurdod lleol neu fwy gydweithredu i ddarparu hyfforddiant a allai gyflwyno manteision megis rhannu arferion da yn ehangach, yn ogystal â sicrhau arbedion ariannol posibl.

Byddai’n fuddiol i’r pwyllgor sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau clerc. Er na fyddai’r clerc yn aelod o’r pwyllgor, gallai weithredu fel ffynhonnell annibynnol o gyngor. Er mwyn gallu gwneud hyn, byddai angen i’r clerc feddu ar ddealltwriaeth dda o’r Cod a’r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013, a bod wedi cael hyfforddiant priodol. Byddai angen i’r awdurdod lleol roi cyngor cyfreithiol priodol i’r pwyllgor yn ôl yr angen. Byddai’n ddoeth pe na bai’r clerc wedi ymwneud ag unrhyw gam o’r cynnig y mae’r pwyllgor yn ei ystyried a phe na bai ganddo unrhyw fuddiant mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan aelodau’r pwyllgor.

Byddai tasgau allweddol y clerc yn cynnwys:

- gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y pwyllgor;
- bod yn ffynhonnell annibynnol o gyngor ar weithdrefn, y Cod a’r rhannau perthnasol o Ddeddf 2013;
- cofnodi’r trafodion, y penderfyniad a’r rhesymau drosto; a
- sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei hysbysu a’i gyhoeddi yn unol â pharagraffau 5.31 i 5.34.

Er mwyn i’r pwyllgor allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, byddai angen i’r awdurdod lleol anfon y dogfennau a nodir ym mharagraff 5.14 uchod at y clerc penodedig yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Byddai’n ddoeth pe bai’r pwyllgor yn seilio ei benderfyniad ar y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn hytrach na cheisio neu ystyried gwybodaeth newydd (oni bai ei fod o’r farn y bydd yn ei helpu i wneud ei benderfyniad o fewn yr amserlen) neu ystyried sylwadau llafar.

# Atodiad E: Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a fydd o gymorth wrth ddatblygu cynigion

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod)
- Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Teithio gan ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol
- Pwysau Iach, Cymru Iach
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Safonau'r Gymraeg
- Polisi a chanllawiau cynllunio: polisi cenedlaethol
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- Cenhadaeth ein cenedl
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Rhaglen Fuddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ystad addysg
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru
- Polisi Cynllunio Cymru
- Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022
- Ysgolion Bro
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.
- Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[179] ("Deddf 2015") yn amlinellu ffyrdd o weithio – o gynllunio a gwneud penderfyniadau – ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill y mae'n eu rhestru. Y nod yw, drwy wneud y pethau hyn yn well, bydd llesiant cyffredinol yng Nghymru yn cael ei wella drwy'r pethau y mae cyrff cyhoeddus, ar y cyd, yn eu gwneud. Mae Deddf 2015 a'r canllawiau statudol[180] yn ei gwneud yn glir bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol, yn eu gwaith cynllunio corfforaethol a'r ffordd maent yn gweithredu'r cynlluniau hynny, wneud y canlynol:

- cydbwyso anghenion tymor byr â'r gallu i ddiwallu anghenion **hirdymor**;
- ystyried effaith eu hamcanion ar amcanion sefydliadau eraill, ac ar lesiant yng Nghymru, mewn ffordd **integredig**;
- **cynnwys** pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu yn y prosesau hynny;
- **cydweithio** â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni amcanion ei gilydd yn well; a
- defnyddio eu hadnoddau i **atal** problemau rhag gwaethygu neu rhag codi yn y lle cyntaf.

---

179 http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted
180 https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau

Mae'r canllawiau statudol, ar gyfer sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn nodi'r disgwyliadau o ran sut y dylid cyflawni'r dyletswyddau.

## Atodiad F: Rhestr o ysgolion gwledig

| Awdurdod Lleol | Enw'r Ysgol | Cyf yr Ysgol |
|---|---|---|
| Abertawe | Ysgol Knelston | 6702217 |
| Abertawe | Ysgol Penclawdd | 6702167 |
| Caerffili | Ysgol Gynradd Fochriw | 6762108 |
| Ceredigion | Ysgol Bro Siôn Cwilt | 6672369 |
| Ceredigion | Ysgol Cenarth | 6672367 |
| Ceredigion | Ysgol Comins Coch | 6672303 |
| Ceredigion | Ysgol Craig yr Wylfa | 6672362 |
| Ceredigion | Ysgol Dyffryn Cledlyn | 6673061 |
| Ceredigion | Ysgol Gynradd Llanarth | 6672291 |
| Ceredigion | Ysgol Gynradd Llanilar | 6672311 |
| Ceredigion | Ysgol Gynradd Llechryd | 6672323 |
| Ceredigion | Ysgol Gynradd Penparc | 6672324 |
| Ceredigion | Ysgol Llanfarian | 6672308 |
| Ceredigion | Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn | 6672309 |
| Ceredigion | Ysgol Llangwyryfon | 6672310 |
| Ceredigion | Ysgol Llannon | 6672293 |
| Ceredigion | Ysgol Mynach | 6672312 |
| Ceredigion | Ysgol Penllwyn | 6672313 |
| Ceredigion | Ysgol Penrhyn Coch | 6672363 |
| Ceredigion | Ysgol Pontrhydfendigaid | 6672353 |
| Ceredigion | Ysgol Rhos Helyg | 6672372 |
| Ceredigion | Ysgol Rhydypennau | 6672316 |
| Ceredigion | Ysgol Syr John Rhys | 6672315 |
| Ceredigion | Ysgol T Llew Jones | 6672371 |
| Ceredigion | Ysgol Tal-y-bont | 6672317 |
| Ceredigion | Ysgol Talgarreg | 6672298 |
| Ceredigion | Ysgol Y Dderi | 6672366 |
| Conwy | Ysgol Betws-y-coed | 6622012 |
| Conwy | Ysgol Capel Garmon | 6622222 |
| Conwy | Ysgol Cerrigydrudion | 6622123 |
| Conwy | Ysgol Dolwyddelan | 6622043 |
| Conwy | Ysgol Llanddoged | 6623039 |
| Conwy | Ysgol Llangelynnin | 6623021 |
| Conwy | Ysgol Penmachno | 6622086 |
| Conwy | Ysgol Pentrefoelas | 6622270 |
| Conwy | Ysgol y Plas | 6623340 |
| Conwy | Ysgol Ysbyty Ifan | 6623032 |
| Gwynedd | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | 6612075 |
| Gwynedd | Ysgol Baladeulyn | 6612078 |
| Gwynedd | Ysgol Bro Cynfal | 6612190 |
| Gwynedd | Ysgol Bro Hedd Wyn | 6612213 |
| Gwynedd | Ysgol Bro Llifon | 6612229 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwynedd | Ysgol Bro Plenydd | 6612048 |
| Gwynedd | Ysgol Bro Tryweryn | 6612214 |
| Gwynedd | Ysgol Brynaerau | 6612017 |
| Gwynedd | Ysgol Craig y Deryn | 6612228 |
| Gwynedd | Ysgol Crud y Werin | 6612039 |
| Gwynedd | Ysgol Edmwnd Prys | 6612192 |
| Gwynedd | Ysgol Ffridd y Llyn | 6612220 |
| Gwynedd | Ysgol Foel Gron | 6613010 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Chwilog | 6612036 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy | 6612189 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas | 6612185 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Edern | 6612046 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Garndolbenmaen | 6612049 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llanbedr | 6612194 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llanbedrog | 6612060 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llandwrog | 6613018 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llangybi | 6612066 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llanllyfni | 6612070 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Llanystumdwy | 6613023 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Nebo | 6612081 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Pennal | 6612207 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Pentreuchaf | 6612093 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Tanygrisiau | 6612211 |
| Gwynedd | Ysgol Gynradd Tudweiliog | 6612112 |
| Gwynedd | Ysgol O M Edwards | 6612199 |
| Gwynedd | Ysgol Pont y Gof | 6613004 |
| Gwynedd | Ysgol Sarn Bach | 6612103 |
| Gwynedd | Ysgol Talsarnau | 6612210 |
| Gwynedd | Ysgol y Garreg | 6612198 |
| Gwynedd | Ysgol y Gorlan | 6612110 |
| Gwynedd | Ysgol yr Eifl | 6612111 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Tynyrheol | 6722275 |
| Powys | Ysgol Abermiwl | 6662002 |
| Powys | Ysgol Arddlin | 6662003 |
| Powys | Ysgol Brynhafren | 6662053 |
| Powys | Ysgol Caersws | 6662008 |
| Powys | Ysgol Cegidfa | 6662049 |
| Powys | Ysgol Clyro | 6663033 |
| Powys | Ysgol Crossgates | 6662077 |
| Powys | Ysgol Dolafon | 6662084 |
| Powys | Ysgol Dyffryn Maesyfed | 6662076 |
| Powys | Ysgol Dyffryn Trannon | 6662044 |
| Powys | Ysgol Ffordun | 6663016 |
| Powys | Ysgol Gynradd Aberriw | 6662005 |
| Powys | Ysgol Gynradd Buttington Trewern | 6662051 |

| | | |
|---|---|---|
| Powys | Ysgol Gynradd Carno | 6662009 |
| Powys | Ysgol Gynradd Glantwymyn | 6662058 |
| Powys | Ysgol Gynradd Llanerfyl | 6665200 |
| Powys | Ysgol Gynradd Llanfair Llwyth Yfnwg | 6663026 |
| Powys | Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant | 6662146 |
| Powys | Ysgol Gynradd Pontsenni | 6662092 |
| Powys | Ysgol Gynradd Rhaeadr | 6663036 |
| Powys | Ysgol Gynradd Tre'r Llai | 6662018 |
| Powys | Ysgol Llanbister | 6662068 |
| Powys | Ysgol Llanbrynmair | 6662019 |
| Powys | Ysgol Llandinam | 6662020 |
| Powys | Ysgol Llandysilio | 6663021 |
| Powys | Ysgol Llanelwedd | 6663037 |
| Powys | Ysgol Llanfechain | 6663000 |
| Powys | Ysgol Llansantffraid | 6663303 |
| Powys | Ysgol Meifod | 6662033 |
| Powys | Ysgol Pennant | 6662059 |
| Powys | Ysgol Pontffranc | 6662066 |
| Powys | Ysgol Pontrobert | 6662041 |
| Powys | Ysgol Rhiw-Bechan | 6662129 |
| Powys | Ysgol St. Michael's | 6663301 |
| Powys | Ysgol Trefaldwyn | 6663002 |
| Powys | Ysgol Y Bontnewydd-ar-Wy | 6663031 |
| Powys | Ysgol yr Archddiacon Griffiths | 6663317 |
| Powys | Ysgol yr Ystog | 6662054 |
| Sir Benfro | Ysgol Brynconin | 6682223 |
| Sir Benfro | Ysgol Casblaidd | 6682254 |
| Sir Benfro | Ysgol Cas-mael | 6682250 |
| Sir Benfro | Ysgol Cilgerran | 6683035 |
| Sir Benfro | Ysgol Clydau | 6682385 |
| Sir Benfro | Ysgol Cosheston | 6683036 |
| Sir Benfro | Ysgol Croesgoch | 6682270 |
| Sir Benfro | Ysgol Eglwyswrw | 6682209 |
| Sir Benfro | Ysgol Ger y Llan | 6683058 |
| Sir Benfro | Ysgol Gynradd Spittal | 6683050 |
| Sir Benfro | Ysgol Gynradd Tredeml | 6682261 |
| Sir Benfro | Ysgol Gynradd y Garn | 6682273 |
| Sir Benfro | Ysgol Llandudoch | 6682253 |
| Sir Benfro | Ysgol Llanychllwydog | 6682231 |
| Sir Benfro | Ysgol Maenclochog | 6682233 |
| Sir Benfro | Ysgol Sant Aidan | 6683315 |
| Sir Benfro | Ysgol Sant Oswald | 6683321 |
| Sir Benfro | Ysgol Tafarnsbeit | 6682266 |
| Sir Benfro | Ysgol y Glannau | 6682384 |

| | | |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | Ysgol Betws Gwerful Goch | 6632214 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Bodfari | 6632070 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Bro Dyfrdwy | 6632267 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Caer Drewyn | 6632216 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Cefn Meiriadog | 6632124 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Gellifor | 6632164 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Llanbedr | 6633044 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd | 6633045 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Pant Pastynog | 6633057 |
| Sir Ddinbych | Ysgol Pentrecelyn | 6632168 |
| Sir Fynwy | Ysgol Cross Ash | 6792305 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Abergwili | 6693000 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Bancyfelin | 6692034 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Beca | 6692180 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Bro Brynach | 6692389 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Cae’r Felin | 6692387 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Carreg Hirfaen | 6692386 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Cwrt Henri | 6692067 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Cynwyl Elfed | 6692187 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Glanyfferi | 6693013 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Griffith Jones | 6692384 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gynradd Brynsaron | 6692104 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gynradd Hafodwenog | 6692182 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gynradd Llangadog | 6692080 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gynradd Peniel | 6692014 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gynradd Talyllychau | 6692065 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Llanllwni | 6693026 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Llanmiloe | 6692119 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Llanpumsaint | 6692109 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Llansteffan | 6692166 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Llanybydder | 6692184 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Meidrim | 6692037 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Penboyr | 6693307 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol Talacharn | 6693003 |
| Sir Gaerfyrddin | Ysgol y Fro | 6692385 |
| Sir y Fflint | Ysgol Brynffordd | 6642065 |
| Sir y Fflint | Ysgol Rhos Helyg | 6642050 |
| Sir y Fflint | Ysgol y Foel | 6642064 |
| Wrecsam | Ysgol Borderbrook | 6653054 |
| Wrecsam | Ysgol Eyton | 6653042 |
| Wrecsam | Ysgol Llanarmon DC | 6652140 |
| Wrecsam | Ysgol St Chad | 6653326 |
| Wrecsam | Ysgol St Paul | 6653347 |
| Ynys Môn | Ysgol Caergeiliog | 6605200 |
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Bodffordd | 6602133 |

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Bryngwran | 6602135 |
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Llanfechell | 6602153 |
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd | 6602157 |
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Moelfre | 6602145 |
| Ynys Môn | Ysgol Gymuned Y Ffridd | 6602142 |
| Ynys Môn | Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | 6602146 |
| Ynys Môn | Ysgol Gynradd Llangoed | 6602155 |
| Ynys Môn | Ysgol Gynradd Rhosybol | 6602165 |
| Ynys Môn | Ysgol Gynradd y Tywyn | 6602173 |
| Ynys Môn | Ysgol Henblas | 6602156 |
| Ynys Môn | Ysgol Pencarnisiog | 6602160 |
| Ynys Môn | Ysgol Penysarn | 6602162 |
| Ynys Môn | Ysgol Rhyd y Llan | 6602227 |
| Ynys Môn | Ysgol Santes Gwenfaen | 6602163 |